TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2022/23

**Hydref 2023**



## EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TORFAEN

**Gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir drwy gryfhau ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy ddiogelu a gwella ein hamgylchedd**

## EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD

**Cefnogol, Teg, Effeithiol, Arloesol**



# Ein Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2022-2023

## Rhagair


1. Cefndir tud.5

2. Dethol ein Hamcanion tud.5

3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd tud.12

4. Ein Hunanasesiad 2022/23 tud.12

   a. Adrodd ar Gynnydd ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 tud.13

   b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol tud.35

5. Cyd-gysylltu ein Gofynion Deddfwriaethol tud.47

6. Costau ein Gwasanaethau tud.50

7. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad tud.50

8. Cyflawni a Monitro ein cynnydd tud.52

## Rhagair

Croeso i'n hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2022–2023.

Yr adroddiad hwn yw ein diweddariad blynyddol ar y cynnydd rydym wedi'i wneud i gyflenwi a datblygu ein gwasanaethau allweddol, gan gynnwys manylion ein gwaith i fwrw ymlaen â'r 9 amcan sydd o flaenoriaeth yn ein Cynllun Sirol.

Mabwysiadwyd ein Cynllun Sirol ar gyfer 2022/27 gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2022. Mae'n nodi ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, gan fynd ati, fel Cyngor i ddisgrifio'n fanylach yr hyn yr ydym yn 'anelu' i'w gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun Sirol.

Datblygwyd y cynllun mewn ymateb i heriau a newidiadau mawr yr ydym yn eu hwynebu fel sefydliad. Mae ein cynllun yn ystyried effaith heriau lleol a chenedlaethol ar y cyd ac yn ymateb iddynt - yn enwedig anghydraddoldeb iechyd ar draws ein cymunedau, y mae'r argyfwng costau byw a wynebir gan ein trigolion, yn ategu atynt, a'u gwaethygu. Ei nod yw sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar yr heriau hollbwysig, fel tyfu'r economi a datblygu sgiliau ar draws y sir, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, cynnwys a rhannu pŵer gyda'n cymunedau, ac ymateb i'r heriau a amlygwyd fel rhan o'r dilyniant i'n harolygiad diweddaraf gan Estyn.

Mae ein gwaith hefyd wedi'i osod yng nghyd-destun y cynnydd yn yr heriau ariannol. Ni allwn guddio rhag y ffaith hon wrth i ni barhau i ymdopi â llai o adnoddau, drwy ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithio. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fod yn barod i fynd i'r afael â'r sialens hon ar ei phen.

Bydd newid ac addasu ein harferion gweithredu ac ailfeddwl y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn fater cyson wrth i ni wynebu'r fath sefyllfa ariannol, anodd. Mewn sawl ffordd, mae ein taith ddiweddar wedi cryfhau gwytnwch ein sefydliad a'n gallu i addasu'n gyflym i amgylchiadau annisgwyl. Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer Cyngor rhagorol yn ganolog o ran peidio â gwanhau ein huchelgeisiau, gan sicrhau ein bod yn gallu gwella lles ein trigolion yn Nhorfaen er gwaethaf yr anawsterau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ledled Cymru. Byddwn yn adeiladu diwylliant sy'n annog ein staff i wella'n barhaus, sy'n eu grymuso i herio a gofyn cwestiynau am yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallem ei wneud yn well.

Byddwn yn canolbwyntio ar barhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a buddsoddi mewn technolegau newydd, er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen ymhellach. Ond mae'n rhaid i ni hefyd ailystyried y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Yn ganolog i'r ymdrechion hyn mae ein hymagwedd Cymunedau Newydd, sy'n symud gwaith y cyngor tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar, a'n helpu i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir, fel y gall y rhai sydd â'r angen mwyaf dderbyn yr adnoddau hanfodol. Bydd ein dull gweithredu yn harneisio pŵer unigolion, grwpiau, sefydliadau a busnesau yn ein cymunedau a'u helpu ar lwybr ataliad o'r radd flaenaf, felly'n rhoi mwy o wytnwch i bawb sy'n byw yn Nhorfaen a'u galluogi i fod mewn sefyllfa well i wynebu heriau bywyd.

Rydym yn hynod falch o'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran ein gweledigaeth, ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau, na fyddai modd eu cyflawni heb ein staff ymroddedig, Aelodau Etholedig, ein partneriaid cefnogol a'r cyhoedd, sy'n parhau i weithio gyda ni i sicrhau bod y fwrdeistref yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld â hi.



**Y Cynghorydd Anthony Hunt**

**Arweinydd y Cyngor**

**Stephen Vickers**

**Prif Weithredwr**



# 1. Cefndir

### Ein Hadroddiad Blynyddol

Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant' blynyddol yn nodi ein casgliadau ynghylch y ffordd y gwnaethom berfformio yn y flwyddyn flaenorol a lle rydym yn hoelio'n sylw yn y flwyddyn i ddod.

Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn 2022-23, mae hefyd yn cyfleu'r hyn sydd ei angen ar gyfer newid sylweddol o ran y sefydliad, hyd at 2027.

Mae'n ofynnol i ni, fel pob corff cyhoeddus arall ledled Cymru gydymffurfio â dyletswyddau penodol. Mae ein 'Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant' blynyddol, yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau cyhoeddi statudol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Mae'r ddwy Ddeddf yn galw arnom yn benodol, i;

- Gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos ein cynnydd mewn perthynas â'n hamcanion Llesiant
- (DLlCD 2015); a
- Chyhoeddi Adroddiad Hunanasesiad blynyddol sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein
- 'gofynion perfformiad.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021**

Dyma ein hail adroddiad, dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac wrth wraidd y drefn berfformio newydd, mae'r angen i bob cyngor adolygu eu trefniadau perfformio. Mae angen i gynghorau wneud hyn drwy fynd ati i hunanasesu eu canfyddiadau mewn modd cadarn a pharhaus ac adroddir ynghylch hyn yn yr adroddiad blynyddol hwn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) wedi ymwreiddio saith nod llesiant sydd o flaenoriaeth mewn cyfraith, y mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt. Maent yn manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio, a chydweithio i wella lles yng Nghymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydym wedi cysylltu meysydd ein hamcanion llesiant sydd o flaenoriaeth allweddol i'r Ddeddf hon, a'n hymrwymiad tuag ati.

# 2. Dethol ein Hamcanion

### Ein Cynllun Sirol 2022-2027





Mabwysiadwyd ein Cynllun Sirol gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2022 ac mi fydd yn cael ei weithredu drwy gydol cyfnod gweinyddu bresennol y Cyngor – hyd at 2027.

Datblygwyd y Cynllun a'n hamcanion ar sail pedair thema ganolog a fydd yn llywio ein gwaith o lunio polisïau a dylunio gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae grwpio mentrau gyda'i gilydd i greu themâu wedi helpu i sicrhau nad yw penderfyniadau a chynllunio yn cael eu gwneud ar wahân, a'u bod yn canolbwyntio mwy ar y 'darlun ehangach' a'r weledigaeth ar gyfer y Sir.

Nid yw ein themâu'n hunangynhwysol, maent yn fwy trawsbynciol a byddant yn sail i ni brofi'r cynlluniau cyfredol a holl gynigion y dyfodol. Themâu ein gwaith yw:

### Llesiant…

Hyrwyddo annibyniaeth, ymyrraeth gynnar ac atal a gweithio mewn partneriaeth i'r eithaf a mynd i'r afael a'r materion allweddol sy'n sbarduno anghydraddoldeb




### Cynaliadwyedd…

Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i Dorfaen a'r byd

### Cysylltedd…

Cymunedau croesawgar, gwydn a grymus, cysylltu sgiliau a busnesau i greu Torfaen sy'n hygyrch yn ffisegol ac yn ddigidol

### Diwylliant a Threftadaeth…

Parchu ein hanes, croesawu amrywiaeth, ymfalchïo yn ein lle, dathlu pwy ydym ni a'r hyn sy'n bwysig i ni.

Mae ein 9 maes blaenoriaeth allweddol y byddwn yn gweithio i'w cyflawni ac y byddant ar y cyd yn ffurfio ein hamcanion llesiant, drwy gydol oes y cynllun, fel a ganlyn:

**EIN HAMCANION LLESIANT 2022-27**

**Amcan Llesiant 1 -** Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol

**Amcan Llesiant 2 -** Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu

**Amcan Llesiant 3 -** Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad

**Amcan Llesiant 4 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol.

**Amcan Llesiant 5 -** Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol

**Amcan Llesiant 6 -** Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.

**Amcan Llesiant 7 -** Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.

**Amcan Llesiant 8 -** Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef


**Amcan Llesiant 9 -** Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau.

Datblygwyd y 9 amcan llesiant uchod drwy ystyried sail dystiolaeth helaeth, o ymrwymiadau presennol a sbardunau allweddol blaenorol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a disgrifio'r hyn y 'byddwn ni' yn bwriadu ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf - nid yn unig i Dorfaen, ond wrth gyflawni'r cyfrifoldeb ar y cyd i wella llesiant yng Nghymru. Yn sail iddynt hefyd mae:

- Ymrwymiadau a sbardunau allweddol blaenorol yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar y cyd, rydym o'r farn mai ein hamcanion llesiant yw'r meysydd cywir i ganolbwyntio arnynt, er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen. A hynny drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

- Strategaethau a chynlluniau allweddol sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn yr ydym am ei gyflawni a sut.
- Cynnwys ein cymunedau ac eraill yn bennaf. Yn enwedig wrth ddatblygu ein strategaethau a'n cynlluniau, er mwyn sicrhau mai ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd yw'r rhai cywir ar gyfer Torfaen.
- Mesurau cynnwys eilaidd sy'n ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau yn y dyfodol drwy ofyn i'r cymunedau sut y gallant ein cefnogi a gweithio gyda ni i gyflawni ein hamcanion wrth symud ymlaen.
- Asesiad Llesiant Gwent a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent sydd newydd ei ffurfio, gan gynnwys yr asesiadau llesiant ar gyfer Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon a'u cymunedau cyfagos. Dywedodd hwn wrthym am agweddau ehangach ar les ar draws y sir heddiw, ond hefyd, sut mae fwyaf tebygol o ddatblygu yn y dyfodol, yn seiliedig ar heriau fel gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd, bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a newid yn yr hinsawdd.

Symleiddir hyn yn y darlun isod:




Mae fersiwn llawn o'n **Cynllun Sirol** ar gael i'w ddarllen neu ei lawr lwytho.

Ochr yn ochr â'n Cynllun Sirol mae ein dogfen statudol **Datganiad Llesiant ar gyfer 2022/27**, sy'n egluro'n fanylach sut yr ydym wedi cyflawni ein hamcanion a sut y byddant yn cyfrannu at 7 nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein datganiad Llesiant hefyd yn gweithredu fel sbardun allweddol i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Torfaen drwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol Gwent (BGC)

Yn ogystal â'n dyletswydd unigol fel corff cyhoeddus i osod ein hamcanion llesiant ein hunain, mae gennym hefyd ddyletswydd ar y cyd gyda'n partneriaid i ddod at ei gilydd a gosod blaenoriaethau/amcanion lles ar y cyd, y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd arnynt, i'w cyflawni.

Wedi'u sefydlu hefyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn bartneriaethau statudol sy'n dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd

mewn ardal i wella llesiant, yn awr ac yn y tymor hir. Mae'n ofynnol i BGC asesu llesiant yr ardal y maent yn ei chwmpasu a llunio cynlluniau llesiant ar gylch pum mlynedd.
Ym mis Medi 2021, wrth i'r cylch cyntaf o gynlluniau llesiant ddod i ben, cytunodd y pump BGC ar draws rhanbarth Gwent uno, felly'n symleiddio ac atgyfnerthu'r trefniadau presennol gyda phartneriaid drwy ddod â'r holl wasanaethau cyhoeddus ynghyd mewn un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) rhanbarthol i Went. Gellir gweld aelodau BGC Gwent sydd newydd ei ffurfio, **yma**.

Mabwysiadodd BGC Gwent ei Gynllun Llesiant cyntaf ym mis Gorffennaf 2023, gan nodi sut y bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ymateb i rai materion allweddol a ganfuwyd yn **Asesiad Llesiant Gwent**.

Mae'r cynllun yn nodi dau amcan llesiant sy'n cydgysylltu a phum cam sylfaenol ar draws y cyfnod cyflawni pum mlynedd rhwng 2023-28. Mae hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer y 25 - 30 mlynedd nesaf, gan gydnabod bod heriau llesiant Gwent yn fawr a chymhleth a bydd angen atebion hirdymor mwy o lawer a bydd yn dechrau drwy gymryd camau yn y tymor byr a chanolig.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, bydd cynlluniau cyflawni yn cael eu paratoi ar gyfer y camau llesiant ar lefel ranbarthol a lleol. Bydd Grŵp Cyflenwi Lleol Torfaen yn datblygu'r trefniadau cyflenwi lleol, gan gydnabod bod y pum ardal awdurdod lleol sy'n ffurfio Gwent yn wahanol iawn, a bod cryfderau a heriau gwahanol ymhob cymuned. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â chydweithio ar faterion sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan, gall cynlluniau cyflawni ddarparu atebion ac ymyriadau lleol a phwrpasol.

Mae Amcanion Cynllun Llesiant y BGC fel a ganlyn:

1. ***Rydym am greu Gwent decach, mwy cyfartal a chynhwysol i bawb.***
2. ***Rydyn ni eisiau Gwent sy'n barod o ran yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, bydd o fydd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

Mae'r pum cam a nodwyd i'n helpu i gyflawni'r amcanion hyn fel a ganlyn:

- Cymryd camau i leihau'r argyfnwg costau byw yn y tymor hir
- Darparu a sicrhau bod cyflenwad o gartrefi priodol, fforddiadwy o ansawdd ar gael
- Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein amgylchedd naturiol
- Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot
- Galluogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, meithrin cysylltiad, ffynu a bod yn ddiogel, a'u cefnogi i wneud hynny

**Sut mae ein dyletswyddau unigol ac ar y cyd yn gweithio gyda'i gilydd:**

Er mwyn cyflawni amcanion llesiant ein cyngor ein hun a'r rheini a fabwysiadwyd ar y cyd gyda'r BGC, mae'n ofynnol i ni, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i nodi'r hyn y gallwn ei wneud ein hunain i wella llesiant, ochr yn ochr â'r hyn y gallwn ei wneud ar y cyd drwy gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r rhain yn ddyletswyddau unigryw, ond ategol.

Mae ein Cynllun Sirol 2022-27 yn nodi sut y byddwn yn cefnogi llesiant yn Nhorfaen dros gyfnod o bum mlynedd a'r hyn y byddwn yn ei gyflawni am y flwyddyn i ddod. Ar ddiwedd pob blwyddyn, byddwn yn adolygu ein cynnydd ac yn ystyried yr hyn y mae angen i ni ei wneud y flwyddyn ganlynol i sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn.

Er i Gynllun Llesiant BGC Gwent gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2023, mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn rhan o'i ddatblygiad drwy Grŵp Gweithredu Llesiant Strategol Gwent ac fe wnaeth hyn hefyd

lywio ein dull o ddatblygu Cynllun Sirol Torfaen fel bod ein hamcanion yn cyd-fynd. Rydym hefyd wedi dechrau meddwl sut y gallwn gefnogi cyflawni'r amcanion llesiant a rennir gyda'r BGC i wneud y gwahaniaeth mwyaf i lesiant lleol.

Wrth i Grŵp Cyflenwi Lleol y BGC ar gyfer Torfaen, sy'n cynnwys swyddogion o'r Cyngor, ddod at ei gilydd yn ystod 2023-24 i ddatblygu cynlluniau cyflenwi lleol ar gyfer pob un o bum Cam Llesiant y BGC, byddwn yn gallu sicrhau bod ein Cynllun Sirol yn adlewyrchu ein cyfraniad at gyflawni ar y cyd.

Mae'r tabl isod yn nodi sut mae 9 amcan llesiant y Cyngor yn cysylltu ag amcanion llesiant a chamau llesiant BGC Gwent:

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcan Llesiant BGC Gwent | Camau Llesiant BGC Gwent | Creu'r Cysylltiadau |
|---|---|---|---|
| **1. Codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot. | Gall cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu neu gyflogaeth, gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar eu hiechyd a'u lles..<br>Gall sicrhau bod plant yn gallu cael pryd o fwyd da eu helpu i ddysgu, gwella iechyd a chefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd talu am hanfodion bywyd.<br>Gall annog ffyrdd iach o fyw, gefnogi perfformiad addysgol a gallu pobl i ddod o hyd i waith teilwng neu ddal gafael ar waith teilwng/ |
| **2. Annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot | Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn yn eu helpu i gael dechrau da mewn bywyd.<br>Bydd datblygu sgiliau magu plant yn helpu i sicrhau bod plant yn tyfu'n iach ac yn derbyn gofal.<br>Bydd amddiffyn plant a theuluoedd Torfaen rhag cam-fanteisio, trais a chamdriniaeth yn cefnogi eu hiechyd a'u lles yn y tymor hir.<br>Gall profiadau plentyndod sbarduno diddordeb gydol oes mewn chwaraeon a'r manteision meddyliol a chorfforol y gall ymarfer corff eu cynnig. |
| **3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Darparu a sicrhau bod cyflenwad o gartrefi priodol, fforddiadwy o ansawdd ar gael.<br>Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hir.<br>Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot | Bydd cadw pobl yn iach, yn byw yn y gymuned, ac allan o'r ysbyty am gyfnod hirach, yn helpu pobl i fyw bywydau iachach, mwy annibynnol ac i deimlo'n rhan o'u cymunedau.<br>Bydd atal digartrefedd a rhoi cyngor ar dai yn helpu i sicrhau bod anghenion tai lleol yn cael eu diwallu a bydd yn cefnogi iechyd a lles yn y tymor hir.<br>Gall cefnogi trigolion sy'n wynebu anhawster ariannol i gynyddu eu hincwm, gyfrannu at les meddyliol a chorfforol a rhoi cyfle i bobl fforddio dewisiadau iachach.<br>Bydd mynediad at wasanaethau cwnsela o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yn cefnogi iechyd meddwl da.<br>Gall darparu brecwast a chinio maethlon am ddim yn ystod gwyliau'r haf drwy wersylloedd hwyl a bwyd a sicrhau bod pob plentyn yn cael pryd da o fwyd yn yr ysgol, wella iechyd.<br>Bydd Gwasanaethau Oedolion sy'n dechrau gyda'r unigolyn, yn helpu i sicrhau bod anghenion iechyd defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu.<br>Gall mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwella teimladau o ddiogelwch a chefnogi lles meddyliol a chorfforol. |

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcan Llesiant BGC Gwent | Camau Llesiant BGC Gwent | Creu'r Cysylltiadau |
|---|---|---|---|
| | | | Gall cefnogi aelwydydd sydd eisoes yn cael trafferth gyda dyledion, helpu i gyfrannu at les meddyliol a chorfforol a bydd yn rhoi cyfle i bobl fforddio dewisiadau iachach. |
| **4. Gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb.<br><br>Rydym eisiau Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, ac o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | Galluogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, meithrin cysylltiad, ffynnu a bod yn ddiogel, a'u cefnogi i wneud hynny.<br>Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol. | Mae'r gallu i deithio yn bwysig iawn o ran lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gall gefnogi lles meddyliol.<br>Gall cysylltiadau da o ran trafnidiaeth, helpu pobl i gael mynediad i gyfleusterau chwaraeon a hamdden, a'u helpu i gadw'n iach ac yn actif.<br>Bydd cefnogi'r newid tuag at atebion mwy gwyrdd o ran trafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth yn helpu i leihau llygredd aer, y gall dod i gysylltiad ag ef effeithio'n andwyol ar iechyd y rhai mwyaf bregus yn y boblogaeth.<br>Gall darparu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol helpu Torfaen i bontio i allyriadau carbon sero-net a chefnogi ffyrdd iach o fyw. |
| **5. Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol.** | Rydym eisiau Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, ac o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.<br>Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot | Mae adnoddau naturiol sy'n gweithredu'n dda yn sylfaen i iechyd da. Maent yn darparu lle i bobl fod yn actif, cynhyrchu ocsigen a maetholion, helpu i reoleiddio'r hinsawdd, storio carbon a chwarae rhan mewn rheoli dŵr (lleihau'r perygl o lifogydd).<br>Gallant hefyd amsugno llygryddion a gludir yn yr awyr sy'n niweidiol i iechyd, a darparu adnodd peillio sy'n bwysig o ran cynhyrchu bwyd.<br>Mae gan risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid, y potensial i effeithio fwyaf ar y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas, felly mae angen i ni fod yn barod.<br>Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gynyddu anghydraddoldebau ymhellach yn ein cymunedau a chael mwy o effaith ar grwpiau bregus<br>Bydd rhai cymunedau hefyd mewn mwy o berygl o ran hinsawdd sy'n newid oherwydd eu lleoliad. Bydd cymryd camau ataliol i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at les cenedlaethau'r dyfodol.<br>Bydd camu i ffwrdd o ddibynnu ar danwydd ffosil yn arwain at wella ansawdd aer a gostyngiadau mewn cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer.<br>Mae mwy o deithio llesol nid yn unig yn golygu llai o allyriadau carbon, ond mae hefyd yn dda i'n hiechyd trwy leihau llygredd aer a'n cadw'n heini.<br>Yn ogystal â chefnogi teithio llesol, mae ein rhwydweithiau o lwybrau beicio hefyd yn goridorau bywyd gwyllt pwysig<br>Mae gallu symud rhwng cynefin tameidiog yn allweddol i oroesiad llawer o blanhigion ac anifeiliaid.<br>Mae cael mynediad i fannau gwyrdd yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol da. |

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcan Llesiant BGC Gwent | Camau Llesiant BGC Gwent | Creu'r Cysylltiadau |
|---|---|---|---|
| **6. Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hir<br>Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot. | Bydd creu cyfleoedd cyflogaeth cynhwysol a chefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i gael gwaith teilwng drwy ein cynnig dysgu oedolion a'r gymuned yn helpu i greu Torfaen mwy cyfartal.<br>Gall cael gwaith gael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolyn ac mae angen gweithlu iach ar economi sy'n ffynnu.<br>Bydd cefnogi'r economi sylfaenol yn helpu i sicrhau bod gan bobl fynediad at y gwasanaethau bob dydd y maent yn dibynnu arnynt, fel y ddarpariaeth iechyd a gofal a fydd yn cefnogi Torfaen iachach. |
| **7. Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Darparu a sicrhau bod cyflenwad o gartrefi priodol, fforddiadwy o ansawdd ar gael.<br>Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot | Bydd diweddaru ac ymwreiddio Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gwent Gyfan yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd i gefnogi iechyd da mewn lleoliad ysgol yn cael eu huchafu.<br>Bydd gweithio gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i ymestyn y cynnig chwaraeon a hamdden yn y fwrdeistref yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl fod yn egnïol.<br>Bydd gweithio gyda grwpiau wedi'u targedu drwy raglenni sydd â'r nod o ddatblygu corfforol, meddyliol ac iechyd gyda chymorth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.<br>Bydd ymyrryd yn gynnar i leihau nifer y trigolion sy'n wynebu tlodi neu sydd angen gwasanaethau cymorth ffurfiol, proffesiynol yn cefnogi iechyd da. |
| **8. Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb.<br><br>Rydym eisiau Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, ac yn fuddiol i'n lles nawr, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | Galluogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, meithrin cysylltiad, ffynnu a bod yn ddiogel, a'u cefnogi i wneud hynny.<br>Cymry camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol. | Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol.<br>Bydd cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â throseddu a gweithgarwch gwrthgymdeithasol yn gwella teimladau o ddiogelwch a bydd yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol.<br>Mae ei orffennol diwydiannol yn dylanwadu'n gryf ar amgylchedd naturiol Torfaen, ac mae'r dirwedd unigryw hon, sy'n bwysig i'n diwylliant heddiw, hefyd yn adnodd ecolegol sylweddol y mae angen ei ddiogelu a'i wella. |
| **9. Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau.** | Rydym am greu Gwent sy'n decach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb. | Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd drwy fframwaith Egwyddorion Marmot<br><br>Galluogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, meithrin | Bydd hyrwyddo gwefan *Cysylltu Torfaen* yn cysylltu trigolion â chyfleoedd gwirfoddoli yn eu cymuned leol a all helpu i wella iechyd meddwl a lles.<br>Gall defnyddio technoleg gynorthwyol lle bo hynny'n briodol, gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol ac i aros yn iachach am fwy o amser.<br>Bydd creu hybiau cymunedol i roi cyngor, cymorth a chefnogaeth i drigolion sy'n agos at y mannau y maen nhw'n byw yn helpu i gefnogi cymunedau cynaliadwy. |

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcan Llesiant BGC Gwent | Camau Llesiant BGC Gwent | Creu'r Cysylltiadau |
|---|---|---|---|
| | | cysylltiad, ffynnu a bod yn ddiogel, a'u cefnogi i wneud hynny. | |

Yn ystod 2022/23, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad i ddarganfod '*i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd*'.

Canfyddiadau eu hadolygiad oedd: '*Mae'r Cyngor wedi ystyried y nifer o ffyrdd y gall weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant newydd. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud, i werthuso'i gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion llesiant*'.

Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad archwilio **yma.**

## 3. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi dechrau proses o newid sefydliadol. Mae penodi Prif Weithredwr newydd ac yna ethol Cyngor newydd a'r angen i lunio cynllun newydd ar gyfer y tymor hirach i Dorfaen, wedi gofyn i ni fynd trwy broses adolygu, gan fyfyrio ar ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ailystyried ein blaenoriaethau ac asesu'r ffordd orau o'u cyflawni.

Mae ethos y Tîm Uwch Reolwyr sydd newydd ei ailstrwythuro yn rhoi pwyslais cryf ar gyfrifoldeb cyfunol a chefnogaeth ar y cyd i gyflawni nodau a rennir, wrth i ni weithio tuag at ein hamcanion llesiant.

Gweledigaeth y Cyngor yw: "***gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir drwy atgyfnerthu ein cymunedau, drwy greu economi leol ffyniannus a thrwy ddiogelu a gwella ein hamgylchedd"***

Gwerthoedd ein cyngor yw bod yn ***Gefnogol, Teg, Effeithiol*** ac ***Arloesol***.

Mae ein gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant ein sefydliad. O ran gwerthoedd, rydym yn golygu'r credoau craidd a'r egwyddorion arweiniol, yr ydym yn eu dilyn i gyflawni ein busnes a'r perthnasoedd sydd gennym ag eraill.

Bydd ein gwerthoedd yn cael eu gwireddu gan yr ymddygiad yr ydym yn ei ddangos a hynny'n unig. Mae hyn yn cynnwys y ffyrdd yr ydym yn gwneud pethau; sut yr ydym yn trin eraill; yr hyn yr ydym ni'n ei ddweud a sut yr ydym yn ei ddweud.

Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i'r sefydliad yn golygu bod ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn ogystal â chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, o ran yr hyn yr ydym am ei gyflawni, hefyd yn y ffordd y byddwn yn gweithio tuag at ein hamcanion.

Ochr yn ochr â datblygu ein Cynllun Sirol, rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfres o amcanion â ffocws mewnol, y byddwn yn eu defnyddio i asesu ein hunain - ein 8 nodwedd i fod yn Gyngor rhagorol. Credwn fod y nodweddion hyn yn diffinio'r amodau a fydd yn ein galluogi i ffynnu fel cyngor, ein galluogi i fod yn fwy effeithlon a rhoi'r cyfle gorau i ni gyflawni amcanion ein Cynllun Sirol.

## 4. Ein Hunanasesiad 2022-23

Rydym yn parhau i ddatblygu diwylliant lle mae pob rhan o'r sefydliad yn anelu at wella ym mhopeth a wnawn – waeth pa mor dda y maen nhw eisoes yn perfformio. Mae hunanasesu gonest ac agored yn hanfodol os ydym am wireddu ein huchelgais.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gael prosesau ar waith i hunanasesu'n barhaus a ydym yn;

- Cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithiol, a
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar waith, er mwyn sicrhau'r uchod.

Mae ein hadroddiad hunanasesu yn gydgrynhoad o'r holl waith hunanasesu yr ydym wedi'i gwblhau yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein hadroddiad wedi bod drwy broses drwyadl i sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ac mai'r casgliadau yn y pen draw yw'r rhai cywir. Cafodd y casgliadau allweddol a nodir yn ein hadroddiad hunanasesu eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'r broses statudol ym mis Hydref 2023.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran 2 fframwaith ein sefydliad, sef ein 'Cynllun Sirol' a 'Torfaen - Cygnor Rhagorol', yr ydym yn parhau i'w defnyddio fel modd o asesu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud a pha mor dda yr ydym yn perfformio.

## a. Ein Cynllun Sirol – Adrodd ar Gynnydd ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022-23

Mae ein Cynllun Sirol 2022/27 yn ymrwymo'r Cyngor i naw uchelgais lefel uchel yr ydym am eu cyflwyno neu eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Sirol. Bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, byddant yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol - i wireddu ein huchelgais. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn ailadroddus ac ystwyth ac fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun (fel gwaith Marmot rhanbarthol y BGC sy'n dod i'r amlwg ). Mae copi o **Gynllun Cyflenwi Cynllun Sirol 2022/23** ar gael i'w ddarllen eu ei lawr lwytho.

Bydd y "fasged" o weithgareddau a mesurau perfformiad, a nodir yng nghynllun cyflawni pob blwyddyn yn dechrau ar daith y Cyngor tuag at bob un o'n huchelgeisiau hyd at 2027 - a hynny'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant ac maent wedi ffurfio sylfaen ein gweithgarwch monitro ac adrodd chwarterol yn ystod 2022/23 a thu hwnt.

Mae ein Cynllun Cyflawni cyntaf yn tynnu sylw at y gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd gennym ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, o ran cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y Cynllun Sirol. Mae ein cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar ymrwymiadau y tu hwnt i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd, i ddangos sut y byddwn yn datblygu ein blaenoriaethau wrth gyflawni ein gweledigaeth. "Gan barchu ein gorffennol, llunio ein dyfodol, byddwn yn gwella cynaliadwyedd, cysylltedd a lles ein sir, drwy atgyfnerthu ein cymunedau, drwy greu economi lleol sy'n ffynnu a gwarchod a gwella ein hamgylchedd."

Mae trosolwg o gynnydd yn ôl pob amcan wedi'i nodi isod:

| Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol 2022-23 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **GLAS** *(cyflawnwyd y cam gweithredu)* | **GWYRDD** (ar darged) | **AMBR** (heb daro'r targed ond llwybr clir yn ôl i '**Wyrdd**') | **COCH** (heb daro'r targed – pryderon sylweddol) | **DU** *(cafodd y gweithredu ei ddileu)* |
| 1. Byddwn ynn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol | 4 | 16 | 2 | 2 | 0 |
| 2. Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | 8 | 14 | 6 | 2 | 0 |
| 3. Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad | 16 | 18 | 16 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol | 8 | 4 | 3 | 0 | 0 |
| 5. Byddwn yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol | 4 | 6 | 6 | 0 | 0 |
| 6. Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd. | 2 | 1 | 6 | 1 | 0 |
| 7. Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol. | 0 | 8 | 1 | 0 | 0 |
| 8. Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef | 5 | 8 | 4 | 2 | 1 |
| 9. Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau | 3 | 11 | 3 | 0 | 0 |
| **DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN GYFFREDINOL** | **50** | **86** | **47** | **7** | **1** |
| | **26.2%** | **45.0%** | **24.6%** | **3.7%** | **0.5%** |

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein Hamcanion Llesiant. Adroddwyd bod y mwyafrif helaeth naill ai ar darged neu wedi eu cwblhau (71%). Ond, fe wnaeth 25% o'r camau wynebu anawsterau, er, rydym yn hyderus bod yna gynllun clir i'w dychwelyd ar y trywydd cywir. Ystyriwyd bod pryderon sylweddol ynghylch 4%.

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos bod bron i dri chwarter yr holl brosiectau wedi'u cyflawni a bod chwarter arall wedi'i ohirio, ond gydag ymrwymiad llwyr i'w cyflawni. Felly, o ystyried bod 191 o brosiectau, mae'r ffaith mai 1 gafodd ei ddileu a 7 sy'n achosi pryder, yn dangos maint a chyflymder y gwaith o gyflawni. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i waith caled swyddogion ac effaith y prosesau newydd o ran rheoli perfformiad a phrosiectau yr ydym wedi'u hymgorffori ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn yn ymwneud â'u cymhlethdod, gydag anawsterau pellach yn gysylltiedig â chwyddiant, cyllid, costau byw a'r gweithlu.

Mae adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn ôl pob un o'n Hamcanion Llesiant gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 ac mae ar gael i'w weld yma.

Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o'n 9 Amcan Llesiant Cynllun Sirol:

## AMCAN LLESIANT 1:

***Codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol***

### Gwella deilliannau i'n dysgwyr …

Rydym yn cydnabod bod angen i ddeilliannau i ddysgwyr yn Nhorfaen wella ymhob un o'n hysgolion.

Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth Estyn bedwar argymhelliad i'r Awdurdod Lleol:

- A1 Gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion.




- A2 Atgyfnerthu rheoli perfformiad.
- A3 Atgyfnerthu prosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella a’r cysylltiad rhyngddynt.
- A4 Gwella arweinyddiaeth strategol o ran dysgu ac ADY.

Gellir gweld copi o Adroddiad llawn Estyn trwy ddilyn y ddolen ganlynol: **Adroddiad Arolygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2022 (gov.wales)**

Mewn ymateb i fynd i’r afael â’r argymhellion penodol hyn, paratowyd Cynllun Gweithredu Ôl Arolygiad (CGOA) a’i gymeradwyo gan Estyn, ym mis Medi 2022. Atgyfnerthwyd gwaith llywodraethu ein Gwasanaethau Addysg hefyd trwy: sefydlu Grŵp Gwella Carlam misol (GGC), Bwrdd Gwella Strategol (BGS) tymhorol, adrodd ar berfformiad bob chwarter i’n Tîm Arweinwyr yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd i bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Wrth i ni barhau i ymateb i'n harolygiad gan Estyn, Rydym wedi datblygu systemau hunanwerthuso cadarn i sicrhau gwell cynllunio, gan ganolbwyntio ar feysydd gwaith allweddol, gyda chefnogaeth ein partner gwella, y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (GCA). Bydd hyn yn cefnogi pob un o'n hysgolion i wella ansawdd eu harweinyddiaeth a'u haddysgu, er mwyn sicrhau deilliannau gwell i bob dysgwr.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae pob ysgol wedi cymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol Cynllun Datblygu Ysgolion gyda'r Awdurdod Lleol a'r GCA i gael dealltwriaeth gyffredin o'u blaenoriaethau datblygu ac i gydlynu cymorth pwrpasol, i fynd i'r afael â'r rhain.

O leiaf bob tymor, mae cyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol (TAS) wedi cael eu cynnal gyda’n hysgolion uwchradd i adolygu effaith y gefnogaeth sy’n cael ei rhoi ac i allu diwygio’r gefnogaeth lle bo angen. Mae swyddogion a thimau yn y Gwasanaethau Addysg yn deall perfformiad ysgolion yn well ac maent yn dechrau cydweithio’n fwy effeithiol i gefnogi ysgolion a dysgwyr.

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o'n hysgolion wedi derbyn arolygiadau cadarnhaol gan Estyn- heb yr angen am unrhyw ddilyniant pellach. Ers mis Mawrth 2023, nid yw Ysgol Gymraeg Gwynllyw bellach yn destun Mesurau Arbennig, ac er nad yw’r ysgol yn y categori hwn mwyach, bydd lefelau uwch o gymorth a chyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol yn parhau, i sicrhau bod y gwelliannau’n cael eu cynnal.

Mae un o'n hysgolion uwchradd yn parhau i fod yn destun mesurau arbennig, ac fel rhan o lwybr i gynnydd, mae'r ysgol yn parhau i dderbyn cefnogaeth bwrpasol gan dimau’r awdurdod lleol a’r GCA.

Mae strategaethau newydd eraill yr ydym wedi'u cyflwyno drwy gydol 2022/23 fel a ganlyn:


- Cwricwlwm newydd i Gymru- Cyflwynwyd ym mhob ysgol gynradd a rhai ysgolion uwchradd o fis Medi 2022. Gan symud i ffwrdd o Gwricwlwm Cenedlaethol rhagnodedig, mae ysgolion wedi symud i fframwaith eang lle gallant ddylunio eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Dyma un o'r newidiadau mwyaf ym myd addysg ers cenhedlaeth, gyda'r nod o baratoi plant a phobl ifanc yn well ar gyfer byd sy'n newid.
- Datblygu strategaeth ADY newydd a chynhwysfawr - a fydd yn amlinellu gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer ADY ac yn nodi cefnogaeth benodol i ddysgwyr ac ysgolion dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y tîm sy'n gyfrifol am gyflawni yn ôl y strategaeth hon yn adolygu ei ddarpariaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn ystod tymor yr Haf 2023 i bennu darpariaeth ac anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol.
- Datblygu strategaeth Addysg Ddigidol newydd – ar gyfer y sir, gan amlinellu ein dyheadau ar gyfer dysgwyr ac ysgolion dros y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori’n ehangach gydag ysgolion a rhanddeiliaid ynglŷn â hyn.

## ***Gwella cyfraddau presenoldeb yn ein hysgolion …***

Mae cyfraddau presenoldeb isel yn parhau i fod yn broblem sylweddol ym mron pob un o'n hysgolion. Mae hyn yn cyd-fynd â'r darlun cenedlaethol ac yn ddi-os mae'n fater a etifeddwyd yn sgil y pandemig, sy'n cael effaith barhaol ar nifer sylweddol o ddysgwyr.




Er bod presenoldeb yn ein hysgolion wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, mae'n fater sy'n parhau i beri gofid yn Nhorfaen. Mae angen i dimau allweddol ac asiantaethau barhau i gydweithio i sicrhau bod dysgwyr sy'n absennol yn gyson neu'n cael eu gwahardd yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod strategaethau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi a gwella presenoldeb.




Ers blwyddyn academaidd 18/19 mae **% presenodleb disgyblion** yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd wedi gostwng 3.7 a 7.7% yn ôl eu trefn.


O gymharu â 21/22, mae % presenoldeb disgyblion wedi gwella fymryn yn y ddwy sector, gyda chynnydd o 0.3% (cynradd) a 0.2% (uwchradd).

Mae camau allweddol i gynyddu'r gyfradd bresenoldeb yn 2022/23 wedi cynnwys:

- Yr Awdurdod Lleol yn hwyluso'r defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) mewn ysgolion i fynd i'r afael ag absenoldebau heb ganiatâd
- Lansio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, sy'n parhau #ddimmewncollimas
- Sefydlu Fforwm Absenoldeb i alluogi ysgolion i rannu arfer da
- Ailgydio mewn rhannu data presenoldeb gydag ysgolion yn Nhorfaen
- Adolygiadau presenoldeb ar ffurf archwiliadau dwfn mewn ysgolion unigol i gefnogi cynnydd cyflym mewn cyfraddau presenoldeb
- Hwyluswyd y cam o ddatblygu polisi clwstwr i gefnogi dulliau cyson ledled Torfaen

## *Cynyddu'r ddarpariaeth Addysg Gymraeg …*

Fel rhan o'r uchelgais genedlaethol i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r sir yn wynebu rhai heriau sylweddol o ran datblygu hyn, mewn ardal, lle mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn isel ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn wynebu heriau go iawn o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, i'n lleoliadau addysg.



Mewn ymgais i gynyddu cyfleoedd ymhellach i fyw a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn parhau i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ein hysgolion. Mae hyn yn unol â'n hymrwymiadau penodol yr ydym wedi'u nodi yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sef ein cynllun 10-mlynedd, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2023.

Yn ystod 2022/23, rydym wedi:


- sefydlu lleoliad gofal plant newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw a 2 ddarpariaeth Dechrau'n Deg newydd - Cylch Meithrin Cwmbrân a Chylch Meithrin Dôl Werdd.
- fel rhan o'n Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym yng nghamau olaf ein cynlluniau i gyflwyno llain 3G newydd yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw, i wella cyfleusterau i ddysgwyr a'r gymuned ehangach
- sefydlu darpariaeth ymdrochi Cyfrwng Cymraeg, mewn cydweithrediad â'n hysgolion Cyfrwng Cymraeg i gynyddu rhuglder y plant sy'n symud i ysgol Gymraeg. Ysgol Panteg sy'n cynnal y ddarpariaeth ac agorodd y lleoliad ym mis Ebrill 2023.
- cynyddu'r ddarpariaeth a chynnig Addysg Cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, trwy ddatblygu adnoddau penodol ar gyfer ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac rydym yn trafod y ddarpariaeth gyda chydweithwyr rhanbarthol.

## Cynyddu cyflogadwyedd a sgiliau …

Mae ein Timau Cyflogadwyedd a NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn gweithio gyda thrigolion unigol i ddileu eu rhwystrau i ddod o hyd i waith, dal gafael ar waith neu symud ymlaen yn y gwaith (pa beth bynnag yw'r rhwystr). Er eu bod yn gweithio gydag unigolion, mae teuluoedd, cymunedau, cyflogwyr a'r economi ehangach yn teimlo effaith y timau hyn. Gall manteision cyflogadwyedd fod yn bellgyrhaeddol nid yn unig o ran yr unigolyn ond i gymunedau yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio'r math o economi sydd gennym yn Nhorfaen, ac o ran helpu ein trigolion i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil economi lewyrchus. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, roeddem yn gwerthfawrogi bod angen fframwaith strategol, clir.

Ym mis Hydref 2022, cymeradwywyd ein Strategaeth Economi a Sgiliau gan y Cyngor. Mae'n nodi sut yr ydym yn bwriadu cefnogi ein cymunedau, ein trigolion, ein lleoedd a'n busnesau yn Nhorfaen yn ystod yr 8 mlynedd nesaf. Mae'n cydnabod y bydd gan Dorfaen sy'n llwyddiannus a chynaliadwy, economi gytbwys, sef bwrdeistref y mae ei busnesau'n tyfu'n economaidd, wrth helpu i greu lleoedd ffyniannus, diogel a deniadol i siopa, ac ar gyfer masnachu a hamdden, gan gefnogi ein dinasyddion i gael hyd i gyflogaeth fedrus, ffyniannus a diogel.





Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael, hyd at fis Medi 2022, yn dangos bod y **% o bobl sydd o oedran gweithio (18-64 oed) sy'n gweithio** yn Nhorfaen, 1.8% yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Ers mis Rhagfyr 2022, mae **% y bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith** wedi bod yn fwy unol â'r cyfartaledd yng Nghymru.

(Pobl sy'n cael eu diffinio fel rhai economaidd weithgar yn bobl sydd naill ai'n gweithio neu'n mynd ati i chwilio am waith).

Mae ein ffigurau NEET ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 wedi cynyddu ychydig dros y 4 blynedd diwethaf. Yn 2022, fe wynebodd nifer o bobl ifanc rhwystrau amrywiol i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant – y mwyafrif yn ymwneud ag iechyd meddwl neu ffactorau meddygol eraill, ac roedd rhai pobl ifanc yn derbyn gofal.




O'u cymharu â blynyddoedd blaenorol mae ein **ffigurau NEET o ran pobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11** wedi cynyddu fymryn ond rydym wedi parhau i fonitro a cheisio cefnogi ein holl bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, bob blwyddyn.

Wrth weithio tuag at ein blaenoriaethau yn Strategaeth yr Economi a Sgiliau, dros 2022/23 rydym wedi:

- dechrau cyflwyno rhaglen profiad gwaith o fewn y Cyngor. Bydd y brif raglen yn darparu cyfleoedd i hyd at 40 o bobl ifanc (o dan 16 oed i ddechrau) o fis Medi 2023, yn ogystal â datblygu cyfleoedd i nifer fach o bobl ifanc 16-19 sydd yn dysgu'n seiliedig ar waith i symud i hyfforddeiaethau o fewn adrannau ein cyngor.
- derbyn 894 o geisiadau ar gyfer Sgiliau Hanfodol, TGAU a Galwedigaethol yn Dysgu Oedolion a'r Gymuned gan bobl sydd am wella'u cymwysterau – 30% un uwch na'n targed ar gyfer y flwyddyn.
- cyrraedd cyfanswm o 3,555 o gyfranogwyr ar ein rhaglenni cyflogadwyedd 5 mlynedd, (Pontydd i Waith, Meithrin, Cymhwyso, Ffynnu a Sgiliau Gwaith i Oedolion) sy'n helpu ein trigolion sy'n oedolion yn Nhorfaen ddod o hyd i waith neu symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.
- gweithio gyda dros 350 o bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio o ysgolion uwchradd am fod angen cymorth arnynt i ymgysylltu a mynd i'r afael â'r hyn oedd yn rhwystro'u cynnydd cadarnhaol.
- cefnogi dros 150 o bobl ifanc sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, tuag at, neu i mewn i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant, yn cynnwys mynediad at gymwysterau priodol ac angenrheidiol i'w cefnogi i gael hyd i waith.
- darparu cymorth cyrchfan uniongyrchol i 265 o bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 a monitro cyrchfan 100% o'r holl bobl ifanc sy'n gadael bl 11 yn agos iawn.
- sicrhau Cyllid Ffyniant Gyffredin ychwanegol yn lle cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn parhau a datblygu rhaglenni datblygu rhaglenni datblygu ac ymgysylltu ar gyfer bobl ifanc 11-20 oed yn Nhorfaen. Bydd hyn yn ein helpu i barhau i greu effaith bositif a help i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i 1.9% o'r garfan ysgol yn 2024.
- sicrhau cyllid ychwanegol i barhau i ddatblygu ein rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc fel y gallwn leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i 1.9% o'r garfan ysgol yn 2024.
- lleoli 3o raddedigion ychwanegol i'w recriwtio yn y Cyngor, Melin a STG Aerospace yn ystod 22/23 , i helpu arloesi a chynyddu'r cyfraddau cyflog ar gyfartaledd yn y Fwrdeistref.
- Creu hwb galw heibio newydd i bobl sydd angen cyngor am ddychwelyd i fyd gwaith, dod o hyd i swydd sy'n well neu helpu i gynyddu'u sgiliau. Sefydlwyd ein Pod Cyngor Cyflogaeth a Sgiliau gan ein Tîm Cyflogadwyedd a Sgiliau ac mae'n brosiect peilot sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, yn rhan o brosiect rhanbarthol a elwir yn CELT, sef *Cysylltu, Ymgysylltu, Gwrando, Trawsnewid*.

## Ein Prif Heriau…

### Gwella deilliannau

Mae angen i ddeilliannau i ddysgwyr yn Nhorfaen wella ar draws ein holl ysgolion. Wrth i ni ymateb i'n harolygiad gan Estyn, rydym yn datblygu systemau hunanwerthuso cadarn i sicrhau y gallwn gynllunio

a ffocysu ein gwaith yn well, gyda chefnogaeth ein partneriaid yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), i gefnogi pob ysgol i wella ansawdd eu harweinyddiaeth a'u haddysgu i sicrhau deilliannau gwell i bob dysgwr.

Mae Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i gyflwyno yn ein holl ysgolion cynradd a rhai o'n hysgolion uwchradd o fis Medi 2022. Gan symud i ffwrdd o Gwricwlwm Cenedlaethol rhagnodedig, bydd ysgolion yn symud i fframwaith eang lle gallant ddylunio eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Dyma un o'r newidiadau mwyaf ym myd addysg ers cenhedlaeth.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rhaid i ni ymateb i'r nifer cynyddol o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cymhleth. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf rydym wedi parhau i weld cynnydd cyson yn nifer y dysgwyr ag anghenion lluosog a chymhleth. Rydym yn ehangu ysgol Crownbridge, ac yn ystod y pum mlynedd nesaf byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i ddeall a chynllunio ar gyfer y ffordd orau o ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn y brif ffrwd, mewn canolfannau adnoddau arbenigol a'n hysgol arbennig.

**Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg**

Fel rhan o'r uchelgais genedlaethol i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rydym yn wynebu rhai heriau sylweddol o ran datblygu siaradwyr Cymraeg mewn ardal, lle mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn isel ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn wynebu heriau go iawn o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, i'n lleoliadau addysg.

Mae angen i ni hefyd greu darpariaeth Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar ychwanegol, gan ehangu'r cyfleoedd ar gyfer addysg Gymraeg a mynd i'r afael â'r angen am gyfleoedd "trochi" i ddysgwyr ymuno ag ysgol cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach yn eu taith addysgol a gwella ansawdd ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.

## AMCAN LLESIANT 2:

***Annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant ffynnu***

**Darparu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif) …**

Rydym yn cydnabod bod anghenion y cwricwlwm a'r dysgwyr wedi trawsnewid dros y 40 mlynedd diwethaf a'u bod yn parhau i esblygu. Dyluniwyd y rhan fwyaf o adeiladau ysgol y cyngor ar gyfer oes oedd yn bodoli cyn y rhyngrwyd pan oedd dulliau addysgu yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgu dosbarth cyfan.

Mae gofynion y cwricwlwm modern a'r dulliau addysgu yn golygu bod yn rhaid i lawer o athrawon ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn y diffygion yn nyluniad adeiladau ysgol. Wrth fynd i'r afael â hyn, mae rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor wedi ein galluogi i greu nifer sylweddol o ysgolion newydd ac adnewyddu ysgolion presennol, er ein bod yn deall bod llawer mwy o hyd y mae angen i ni ei wneud.


Er, yn anffodus, cafodd rhai prosiectau adeiladu eu gohirio yn ystod 2022/23, mae ein prif brosiectau, fel a ganlyn:

- Dechrau ar estyniad carbon sero net gwerth £6.85m sy'n cynnig 50 o leoedd ychwanegol yn Ysgol Crownbridge i wella'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ab anawsterau dysgu difrifol.
- Ymgymryd â'r 3 cyntaf o'r 14 o osodiadau ffotofoltäig solar a drefnwyd i'w gosod mewn ysgolion, i gynhyrchu pŵer trydan.

**Sicrhau bod ein plant a'n teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir a lleihau'r angen i atgyfeirio at y gwasanaethau statudol…**

Ein ffocws parhaus drwy gydol 2022/23 oedd lleihau'r galw am ofal cymdeithasol i blant a theuluoedd a hynny'n ddiogel, trwy gydnabod a datblygu cryfderau'r gymuned, y teulu a'r unigolion. Wrth leihau lefel y galw ar y gwasanaeth yn ddiogel, ein nod yw symud a thargedu mwy o adnoddau i ddatblygu ac ehangu cynnig lleol i sicrhau bod gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn cael eu datblygu'n barhaus a bod gwasanaethau statudol wedi'u targedu'n fwy effeithiol ac effeithlon at y rhai sydd eu hangen.

Mae poblogaeth y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn Nhorfaen yn parhau i fod y ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae'r ffigwr o 388 ar ddiwedd mis Mawrth 2023 gryn dipyn yn is na'r ffigwr o 475 pan oedd ar ei uchaf ym mis Medi 2020.





Er 21/22, mae **nifer y plant y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt,** wedi gostwng yn raddol, er, mae'r ffigwr hwn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae gwaith i leihau'r boblogaeth hon wedi'i wneud yn ddiogel ac yn effeithiol drwy strategaeth ddeuol i ryddhau Gorchmynion Gofal ar blant sydd wedi'u lleoli gyda'u teuluoedd, ei lleoli gyda'r Rhieni (LlGRh), Gorchmynion Gofal gan Berthynas, a thrwy atal plant i ddod i'r system ofal heb angen. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o gamau i ail ddylunio gwasanaeth, defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes a datblygu ymagwedd gyffredinol sy'n seiliedig ar gryfder wrth fynd ati i ymarfer. Mae'r gwaith hwn wedi dangos ei fod yn effeithiol o ran lleihau'r nifer sy'n derbyn gofal, ac mae'r nifer uchaf o Orchmynion LlGRh wedi'u diddymu yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae datblygu staff wedi bod yn allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau yn dilyn hyfforddiant seiliedig ar gryfder ar draws y gweithlu.

Mae rhagor o waith hefyd wedi'i wneud i gefnogi'r plant hynny sydd eisoes yn derbyn gofal, gyda mwy o gapasiti yn ein Tîm Lleoliad Teuluoedd a chanran fawr o'n plant yn cael cefnogaeth gan ofalwyr maeth mewnol. Bu'n rhaid i'r plant hynny na ellir diwallu eu hanghenion mewn gofal maeth y mae'n rhaid iddynt symud i ofal preswyl, gael eu lleoli y tu allan i'r sir. Er bod niferoedd Torfaen wedi aros yn gymharol isel, o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, roedd y garfan hon o blant yn aml yn cael eu rhoi gryn bellter i ffwrdd o'u teuluoedd ac mewn lleoliadau nad oeddent yn diwallu eu hanghenion yn y ffordd fwyaf effeithiol neu'r ffordd orau. Er mwyn sicrhau bod y plant hynny sydd angen gofal preswyl yn cael y cymorth gorau, mae Torfaen wedi symud ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer ei gartref preswyl cyntaf , sef *Greenhill Bungalow* ac mae gwaith i ddatblygu'r eiddo hwn yn mynd rhagddo, ac yn cael ei fonitro trwy broses ein Swyddfa Rheoli Prosiectau.

Lansiwyd ein proses atgyfeirio ar-lein yn 2022 i bob ysgol er mwyn galluogi prosesau atgyfeirio mwy effeithiol at y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, yr her o hyd, yw bod 67% o atgyfeiriadau yn arwain at 'Dim Gweithredu Pellach' (Ionawr 2023), sy'n parhau'n rhy uchel ac mae angen mwy o waith gyda phartneriaid i leihau hyn yn sylweddol, oherwydd, er ein bod am weld pryderon yn cael eu codi, rydym am i bartneriaid ein hysbysu mewn amgylchiadau priodol yn unig. Yn ogystal, ffurfiwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Diogelu Gwent yn ddiweddar, oherwydd ansawdd rhai o'r atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn i'n Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Ar y cyd, dylai'r strategaethau hyn leihau nifer yr atgyfeiriadau lle nad oes angen camau pellach. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod adnoddau ac ymatebion yn cael eu targedu'n effeithiol ar gyfer y rhai sydd â'r lefel fwyaf o anghenion.




Ym mis Ionawr 2023, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd adolygu ein gwasanaethau plant, yn rhan o'n hadolygiad cenedlaethol ar gynllunio gofal i blant a phobl ifanc, sy'n destun cyn-drafodion amlinellol cyfraith gyhoeddus.

Pwrpas yr adolygiad hwn oedd craffu allanol, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliant mewn perthynas â'r cynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn gadarnhaol: *"Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (TCBC) weithdrefnau ar waith i gefnogi ei benderfyniadau mewn perthynas â chyn-drafodion Amlinelliadau Cyfraith Gyhoeddus (PLO). Yn sail i ddiwylliant o gryfder yr awdurdod lleol mae ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu, sy'n anelu at hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol tra'n sicrhau bod risgiau a phryderon yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol*".

I weld y canfyddiadau a'r argymhellion yn llawn, gweler dilynwch y ddolen: **230324-National-Review-children-young-people-torfaen-en.pdf (careinspectorate.wales)**

## Cefnogi pobl ifanc sydd angen atal ac ymyrraeth o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol …

Dechreuwyd y broses Ymyrraeth Amlasiantaeth i Ddisgyblion (MAPI) yn 2014, i sicrhau bod gan Dorfaen ddull cydlynol, amlasiantaethol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, drwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal yn hytrach na gorfodi neu reoli argyfwng. Cyflwynwyd cyfarfodydd MAPI i ganfod gwendidau mewn pobl ifanc a allai ddangos mwy o risg o ymddwyn yn wrthgymdeithasol a/neu droseddi a fyddai, yn y pen draw yn arwain yr unigolion hynny i ddod i gyswllt â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae MAPI yn hwyluso rhannu gwybodaeth am bobl ifanc mewn ysgolion sy'n ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol ar lefel isel yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc. Mae'r mathau o ymddygiad sydd wedi'u cynnwys yn yr atgyfeiriadau yn dangos cynnydd o ran difrifoldeb ac amlder yr ymddygiadau. Mae gan bobl ifanc bellach fwy o fynediad at wasanaethau ataliol i sicrhau bod ymyriadau ar gael i fynd i'r afael â'r ymddygiadau cyn gynted â phosibl.

Mae MAPI yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddatrys problemau i leihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan i sicrhau bod anghenion y plentyn wrth wraidd yr ymyriadau. Gan weithio mewn partneriaeth ac ar ôl adeiladu rhwydweithiau drwy'r Hwb Diogelwch Cymunedol, mae'r tîm yn gallu sicrhau bod dull cydlynol yn cael ei feithrin i gefnogi'r person ifanc a'i deulu. Yr hyn sydd wrth wraidd y mater yn gyfan gwbl yw atal yr unigolion hyn rhag bywyd llawn trosedd a phryderon cynyddol.

Ers mis Medi 2022, mae 74 o bobl ifanc wedi bod yn destun proses MAPI yn Nhorfaen. Er na fu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n destun proses *Strike* (Ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lefel uwch), ein huchelgais yw y bydd garfannau yn cael eu hatal rhag camu ymlaen i'r broses Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Allan o gyfanswm o 74 o bobl ifanc sy'n destun MAPI, mae 12 wedi symud ymlaen i'r broses Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn bennaf oherwydd diffyg ymgysylltu ag ymyraethau gwirfoddol. Mae'r 12 yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dulliau ymyrraeth fwy ffurfiol, fel clinigau wyneb yn wyneb mewn goraf heddlu a Chontractau Ymddygiad Derbyniol a all wahardd person ifanc rhag cael mynd i mewn i leoedd penodol. Mae'r broses hon hefyd yn sicrhau bod y person ifanc a'i deulu yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

## *Ehangu mynediad at ofal plant i bob plentyn 2 oed*

Dechrau'n Deg yw'r rhaglen Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan bedair oed, sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ei nod yw rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant, drwy weithio gyda theuluoedd o'r cyfnod cyn-enedigol, hyd at y cyfnod pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd mae tua 1,100 o blant a'u teuluoedd eisoes yn cael cymorth Dechrau'n Deg yn Nhorfaen, sy'n cynnwys gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell, dosbarthiadau cyn-enedigol, mynediad i grwpiau magu plant a chymorth i gefnogi plant gyda datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Ehangwyd y cynllun Dechrau'n Deg ym mis Medi 2022 yn ardal Abersychan, i roi cefnogaeth blynyddoedd cynnar i dros 140 o blant rhwng eu geni a phedair blwydd oed.



Mae cynllun ar wahân i ddatblygu darpariaeth Dechrau'n Deg ym Mlaenafon hefyd wedi'i greu, ac mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno yn 2023, er mwyn sicrhau y bydd 90 o blant ychwanegol hefyd yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth.

Mae hyn yn newyddion cyffrous iawn i Dorfaen a gweddill Cymru, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw a'r caledi mawr y mae hyn yn ei greu yn ein cymunedau. Wrth symud ymlaen, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhagor o gynlluniau Dechrau'n Deg a gofal plant i blant dwy oed i fwy o gymunedau yn Nhorfaen.

## Ein Prif Heriau…

### *Ysgolion yr 21ain Ganrif*

Rydym wedi gallu buddsoddi'n sylweddol yn ein hystâd ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf o dan nawdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (sy'n cael eu galw'n Gymunedau Dysgu Cynaliadwy erbyn hyn). Mae angen gwneud mwy, ond mae'r amgylcheddol ariannol byd-eang yn ystod y 2 i 3 blynedd ddiwethaf wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y prisiau. Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yw gweithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu sut y bydd gwaith yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Yn ogystal, wrth gynllunio ein lleoedd mewn ysgolion yn y dyfodol bydd angen ystyried ein Cynllun Datblygu Lleol sydd wrthi'n cael ei adnewyddu, er, disgwylir y bydd angen i'r cyllid ar gyfer lleoedd ychwanegol ddod drwy gytundebau Adran 106 cysylltiedig.

### *Gwasanaethau Plant*

Mae ffocws parhaus ar leihau'r galw am ofal cymdeithasol plant a theuluoedd mewn ffordd ddiogel drwy gydnabod a datblygu cryfderau'r gymuned, y teulu ac unigolion. Wrth leihau lefel y galw ar y gwasanaeth gallwn symud a thargedu mwy o adnoddau i ddatblygu ac ehangu ein cynnig lleol a sicrhau bod gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon ac wedi'u targedu at y rhai sydd angen gwasanaethau statudol.

## AMCAN LLESIANT 3:

***Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar.***

## Darparu amrywiaeth o gymorth ariannol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf…

Mae graddfa'r argyfwng costau byw a'r galw am lawer o'n gwasanaethau refeniw a budd-daliadau yn parhau i dyfu wrth i gymunedau barhau i adfer, yn dilyn y pandemig.

Mae'r prif weithgareddau yr ydym wedi'u cyflawni yn 2022/23, fel a ganlyn:

- Cafodd 4,318 o hawliadau gwerth cyfanswm o £23,437,609 eu talu i helpu trigolion gyda'u rhent.
- Cafodd 9,716 o hawliadau gwerth cyfanswm o £10,185,107 eu talu, i helpu trigolion gyda'u treth y cyngor.
- Cafodd cyfanswm o £449,224.63 ei dalu mewn taliadau disgresiwn at gostau tai i helpu pobl i aros yn eu cartrefi
- Cafodd cyfanswm o 11,863 o daliadau eu talu i drigolion, yn rhan o Gynllun Tanwydd y Gaeaf



- Cafodd 2,302 o hawliadau gwerth cyfanswm o £806,000 eu talu i ofalwyr di-dâl sy'n gymwys
- Cafodd 34,059 o daliadau costau byw eu gwneud gwerth cyfanswm o £5,108,850.00 i feddianwyr eiddo ym mandiau A, B, C a D treth y cyngor i bobl sy'n gymwys dan gynllun gostyngiadau treth y cyngor
- Rhoddwyd bron i £400k mewn taliadau gwerth £150 i gefnogi teuluoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- Cefnogwyd 414 o drigolion drwy Gynllun Creu Cymunedau Cryf, i sicrhau'r incwm mwyaf posibl

## Parhau i weithio gyda'n partneriaid mewnol ac allanol i ganfod a gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwaharddiad…

Mae'r rhaglen Dyfodol Cadarnhaol wedi parhau i dyfu, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y galw drwy ein gwaith gyda phartneriaid gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac ysgolion. Diben y rhaglen hon yw cynnig ymyrraeth ar ffurf cwricwlwm amgen, drwy gyrsiau achrededig i bobl ifanc sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n ymddieithrio o addysg prif ffrwd, y rhai na allant ymgysylltu ag addysg prif ffrwd a'r NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) anoddaf eu cyrraedd sydd wedi cael eu hatgyfeirio o Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Yn ystod 2022/23 rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc mewn 4 ysgol ac wedi derbyn ymholiadau gan 4 ysgol arall i ddarparu sgiliau a helpu pobl ifanc i gynyddu eu hunanhyder a'u hunan barch, gan ganiatáu iddynt aros yn eu lleoliad ysgol ar yr un pryd.

Mae'r gwaith cymunedol sydd hefyd wedi mynd rhagddo mewn 4 ardal gafodd eu nodi'n 4 ardal y gwyddys bod yna broblemau yno, wedi ein galluogi i weithio gyda 75 o bobl ifanc, gan roi cefnogaeth iddynt a helpu trigolion i deimlo'n llai bregus yn eu cartrefi.

Mae'r berthynas rhwng partneriaid yn parhau i gryfhau, gan fod y gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr..

## Sicrhau bod ein gofalwyr ifanc yn parhau i gael eu hadnabod a'u hasesu a bod y cyfathrebu ag asiantaethau allweddol yn effeithiol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau …

Rydym yn parhau i gynnig ein gwasanaeth mewnol i ofalwyr ifanc, sy'n effeithiol o ran canfod ac asesu gofalwyr ifanc. Lansiwyd y cynllun cerdyn adnabod cenedlaethol gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2021 ac mae'n caniatáu i ofalwyr ifanc gyflwyno'u hunain yn hawdd i weithwyr proffesiynol, heb orfod rhannu manylion personol am eu rôl gofalu. Mae'r cynllun hwn hefyd yn caniatáu i ofalwyr fod yn fwy gweladwy yn eu cymunedau ac yn rhoi'r hawl iddynt gael mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden ac atyniadau twristaidd penodol yn y fwrdeistref.



Mae bron i 190 o ofalwyr ifanc yn Nhorfaen wedi cofrestru i dderbyn y cerdyn adnabod cenedlaethol, sy'n caniatáu iddynt fod yn fwy gweladwy yn eu cymunedau. Un o'r pethau balchaf a gyflawnom yn 2022 oedd pan ddyfarnwyd Achrediad Cyflogwr sy'n Ystyriol o Ofalwyr i ni, y sefydliad cyntaf yng Nghymru, gan Care Collective.

Care Collective yw'r elusen fwyaf sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'n cynnig hyfforddiant ac achrediad i sefydliadau a thimau ymhob cwr o Gymru i helpu i gefnogi gofalwyr yn y gweithle.

Mae'r wobr hon yn cydnabod y gwaith y mae'r awdurdod wedi'i wneud gyda gofalwyr hyd yma a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gefnogi staff sy'n ofalwyr di-dâl.

## Helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain …

Mae galw mawr am Ofal Cymdeithasol i Oedolion, yn enwedig o ganlyniad pandemig COVID a'r effaith y mae hyn wedi'i chael, o ganlyniad, ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein gwaith yn ystod 2022 wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi ein trigolion i gynnal eu hannibyniaeth a'u gwydnwch, ac rydym yn gwybod bod hynny'n arwain at ganlyniadau gwell i'r unigolion hynny. Rydym hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth fel nad yw trigolion yn cael eu tynnu i mewn i system a gwasanaeth, pan allant gadw eu hannibyniaeth a byw'r bywyd y maent yn ei ddewis drwy gael mathau eraill o gefnogaeth anstatudol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i Ymyrraeth ac Atal cynnar ac Ailalluogi, fod wrth wraidd ein gweithgarwch. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni adeiladu ar y gwaith gwych sy'n digwydd yn ein cymunedau er mwyn galluogi hyd yn oed lefelau uwch o wytnwch cymunedol a chefnogaeth gymunedol i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Mae amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu comisiynu gyda darparwyr sector preifat a gwirfoddol ar draws y fwrdeistref sirol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal cartref ochr yn ochr â gwasanaethau larwm a thechnoleg gynorthwyol i gynnal annibyniaeth unigolyn. Mae ein gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn darparu cymorth ychwanegol sy'n gysylltiedig â thai i drigolion sydd angen cefnogaeth ac mae'n ychwanegu ac yn ategu at wasanaethau statudol a thrydydd sector i gynorthwyo unigolion i gynnal eu hannibyniaeth.



Felly, mae gwaith, ar draws y Cyngor, er mwyn datblygu gwytnwch cymunedol a lleihau'r angen am wasanaethau statudol a'r baich arnynt wedi parhau ar garlam yn 2022. Daeth yr Isadran Oedolion a Chymunedau newydd i fodolaeth ar 1 Ebrill 2023. Mae'n helpu i ganolbwyntio ar fynediad drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion ac mi fydd yn datblygu cynnig adsefydlu cymunedol integredig. Dylai hyn alluogi'r trigolion hynny sydd angen y cymorth mwyaf i gael eu trin mewn modd effeithlon.


Ar ddiwedd 2022, fe wellodd capasiti'r farchnad darparwyr cartrefi, felly'n caniatáu i ni leihau nifer yr oriau o ofal cartref nad ydynt yn cael eu comisiynu ,felly'n sicrhau bod pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt yn y gymuned.

Rydym hefyd wedi gallu cynyddu nifer y pecynnau ail-alluogi a ddarperir, drwy liniaru angen neu leihau cefnogaeth, trwy ein gwasanaeth ail-alluogi.

Gan edrych ar ein timau Derbyn a Gofal Brys yn y Cartref yn Nhŷ Glas y Dorlan, sef Gwasanaeth Derbyn a Gofal Brys yn y Cartref, rydym wedi dechrau ail-lunio ein modelau ail-alluogi i ddarparu gwasanaeth ail-alluogi integredig yn y gymuned, yn unol â menter Ymhellach yn Gyflymach, Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn llywio achos busnes ar gyfer cam 2 a chafodd ei gymeradwyo fel blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig (BPGI).

## Darparu tai fforddiadwy ac atal digartrefedd…

Mae galw mawr am dai fforddiadwy o ansawdd da nid yn unig yn Nhorfaen ond hefyd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae prisiau prynu a rhentu tai ar ei huchaf erioed, ac mae hyn yn effeithio ar nifer y tai sydd ar gael a pha mor fforddiadwy ydynt i'r cyhoedd, yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw.




O gymharu â 21/22 mae ein perfformiad o ran **atal pobl rhag dod yn ddigartref** wedi gostwng 5.95%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref oherwydd yr argyfwng costau byw a llai o dai fforddiadwy i'w rhentu/prynu.

Mae hyn hefyd yn effeithio ar ddigartrefedd gan nad yw aelwydydd yn gallu cael mynediad at dai fforddiadwy. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n ddyfal gyda phartneriaid i ymateb, nid yn unig o ran atal digartrefedd, ond hefyd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i ailddefnyddio tai hen a newydd sydd eisoes yn bodoli, a hynny cyn gynted â phosibl.

Yn ystod 22/23 rydym wedi:

- Parhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod trigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau allweddol er mwyn cynnal eu llety.
- Cael hyd i unedau ychwanegol o letyau dros dro sydd wedi eu prydlesu i ni ar gyfer aelwydydd sy’n ddigartref.
- Ymgysylltu’n rhagweithiol ar y cyd i atal digartrefedd a lleihau dyled tenantiaid, mewn tai rhent cymdeithasol.
- Comisiynu ar y cyd i uwchraddio system Civica Housing, drwy bartneriaeth Homeseeker.
- Gweithio’n gydweithredol ar lefel strategol drwy'r Bartneriaeth Tai Strategol
- Bod yn rhagweithiol yn ein trefniadau “symud ymlaen” a sefydlwyd i wella’r llif i mewn i lety parhaol a lleihau caledi.

## Ein Prif Heriau…

### Gwasanaethau Oedolion

Mae amrywiaeth o heriau sy'n rhychwantu gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â'r galw cyffredinol a roddir ar wasanaethau ac o ganlyniad disgwyliad ar y gwasanaethau statudol i ddarparu i fodloni lefel y galw. O'r her hon, mae angen parhaus i ganolbwyntio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau sydd â'r nod o atal cynnydd i mewn i wasanaethau a thrwyddynt.

Mae galw mawr am Ofal Cymdeithasol i Oedolion, yn enwedig o ganlyniad pandemig COVID a'r effaith y mae hyn wedi'i chael, o ganlyniad, ar iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein gwaith yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chymorth fel nad yw dinasyddion yn cael eu tynnu i mewn i system a gwasanaeth, pan allant gynnal annibyniaeth a byw'r bywyd y maent yn ei ddewis drwy gael mathau eraill o gefnogaeth anstatudol.

### Cymunedau

Mae angen i ni hefyd fanteisio ar y rôl y mae cymdeithas eisoes yn ei chwarae wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a sut rydym yn ffocysu adnoddau ymyrryd ac atal cynnar yn fwy effeithiol. Mae cyflawni hyn yn golygu ailgynllunio ein gwasanaethau o amgylch y cwsmer a sut maen nhw'n byw eu bywydau ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

Un o'n prif gyfrifoldebau yw arfogi ein cymunedau â'r sgiliau a'r adnoddau fel y gallant ddod yn fwy gwydn i'r heriau sy'n eu hwynebu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym am gefnogi a grymuso ein cymunedau fel y gallwn ddylunio ymatebion i'r bygythiadau hyn gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf ac yn adlewyrchu natur unigryw pob ardal. Yn gryno, rydym am ddatblygu dull gweithredu cymunedol tuag at wasanaeth cyhoeddus.

Mae cymunedau wrth wraidd pob un o'n 9 amcan llesiant. Mae cyd-ddylunio a chyd-ddarparu gwasanaethau gyda chymunedau yn hanfodol os ydym am godi dyheadau ymhlith ein pobl ifanc, lleihau anghydraddoldebau, cefnogi ffyrdd iach o fyw, ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. I wneud hyn, mae angen i ni fod yn glir ynghylch sut, pryd a gan bwy y gall ein trigolion gael hyd i wybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth. Rydym am greu 'drws blaen a rennir' gyda'n cymunedau a'n partneriaid sy'n cyfeirio pobl i'r lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir, gan y ffynhonnell gywir fel y bydd yn cael ei ddarparu'n gyson, ac o’r ansawdd uchaf pan fydd pobl angen cefnogaeth y Cyngor.

Wrth gwrs, mae heriau o ran datblygu dull gweithredu cymunedol tuag at wasanaeth cyhoeddus. Mae pob ardal yn wahanol gyda'i set ei hun o anghenion gwasanaeth a'i chynnig cymunedol ei hun. Ar hyn o bryd nid oes digon o drigolion yn teimlo y gallant lunio neu ddylanwadu ar y gwasanaeth a gynigir yn eu hardal leol ac mae angen i ni wella cydlyniad gwirfoddolwyr ar draws y fwrdeistref.

### Tai

Mae galw mawr am dai fforddiadwy o ansawdd da nid yn unig yn Nhorfaen ond hefyd ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae prisiau prynu a rhentu tai ar eu huchaf erioed, ac mae hyn yn effeithio ar nifer y tai sydd ar gael a pha mor fforddiadwy ydynt i’r cyhoedd, yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw.

Mae hyn hefyd yn effeithio ar ddigartrefedd, gan nad yw aelwydydd yn gallu cael mynediad at dai fforddiadwy. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i ymateb, yn unig o ran atal digartrefedd, ond hefyd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i ailddefnyddio tai hen a newydd sydd eisoes yn bodoli, a hynny cyn gynted â phosibl.

## AMCAN LELSIANT 4:

***Gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol***

### Annog teithio llesol…

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu a gweithredu llwybrau teithio llesol newydd yn y Fwrdeistref i wella a hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol, trwy gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd.



Mae prosiect i drawsnewid Gorsaf Reilffordd Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd hefyd wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol ar ddiwedd 2022 ac mae bron â bod wedi'i gwblhau. Mae hyn yn cynnwys datblygiad gwerth £7.1m i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r orsaf a'i gwneud yn haws i deithwyr adael eu ceir a'u beiciau yn yr orsaf drenau i deithio ymhellach i ffwrdd.

Y prosiect yw un o gynlluniau Metro Plus cyntaf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gael eu cyflawni, yn rhan o gynlluniau i greu system Metro De Cymru.

Mae cynlluniau a phrosiectau newydd arwyddocaol eraill yr ydym wedi'u cwblhau i helpu gydag ymddygiadau newidiol i annog trosglwyddo o'r car i deithio llesol yn cynnwys:

- Lledaenu'r llwybrau cerdded a beicio ar Cwmbrân Drive ac Edlogan Way
- Dechrau ar brosiect i ymchwilio a mynd i'r afael â'r hyn sy'n torri cysylltiadau teithio llesol (hy fel bod llai o ymyrraeth i'r llwybr teithio llesol) ar Cwmbran Drive
- Gweithio gyda Chanolfan Siopa Cwmbrân i gynyddu Teithio Llesol yng nghanol y dref.
- Gweithio gydag Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam/Ysgol Woodland i hyrwyddo cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned (SRiC).
- Cwblhau cynlluniau gostwng cyrbau mewn gwahanol fannau yn y fwrdeistref
- Cwblhau arolygon i ddatblygu llwybrau teithiol llesol newydd ger croesfannau ar hyd y llwybr halio mewn cydweithrediad â Strategaeth Adfywio'r Gamlas.

### Cysylltu ein cymunedau...

Un o'n prif flaenoriaethau, yw arfogi cymunedau â'r sgiliau a'r adnoddau fel y gallant ddod yn fwy gwydn i'r heriau sy'n eu hwynebu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym am allu cefnogi a grymuso cymunedau, fel eu bod yn gallu llunio neu ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, sy'n briodol i'w hanghenion. Yn gryno, rydym am ddatblygu dull gweithredu cymunedol tuag at wasanaeth cyhoeddus, sy'n cyfeirio pobl i'r lefel gywir o gymorth, ar yr adeg gywir a gan y ffynhonnell gywir, fel y bydd cymorth yn cael ei ddarparu'n gyson a'i fod o'r ansawdd uchaf.

Yn ystod 2022 rydym wedi creu ein Cyfarwyddiaeth Cymunedau a Materion Digidol i ddatblygu "Dull Cymunedau" newydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus– dull lle mae'r Cyngor yn gweithio'n agosach gyda'n cymunedau lleol (trigolion, grwpiau cymunedol, cynghorau cymuned a chyrff cyhoeddus eraill) i gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd ein Dull Cymunedau yn cael ei nodi mewn Strategaeth Llesiant Cymunedol sydd ar hyn o bryd yn y cam creu gweledigaeth/gosod amcanion. Bydd y strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn defnyddio'r Dull Cymunedau i gydweithio â'n cymunedau lleol i ddileu tlodi, hybu

iechyd a lles, ac ysgogi gweithgarwch cymunedol gyda'r nod o wella ansawdd bywyd a gwytnwch y trigolion yn Nhorfaen.

Hyd yma yn ystod 2022, rydym wedi:

- Cynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael ar wefan y cyngor.
- Gweithio gyda darparwyr telathrebu i leihau eithrio digidol drwy wella band eang.
- Ehangu cysylltiad di-wifr (wi-fi) cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref

**Ein Prif Heriau…**

**Teithio Llesol**

Mae Teithio Llesol yn allweddol i gysylltu pobl a chymunedau mewn modd cynaliadwy. Profwyd hefyd fod manteision iechyd a lles ynghyd â hyrwyddo’r agenda newid hinsawdd a gwella ein hamgylchedd lleol.

Yn dilyn proses ymgynghori helaeth, rydym wedi nodi 175 o lwybrau yn y dyfodol fel rhan o'n Map Rhwydwaith Teithio Llesol ond er bod y gwelliannau a nodwyd o ran y seilwaith, rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â'n trigolion i ystyried agweddau ehangach ar unrhyw gynllun teithio llesol sy'n cael ei gyflawni drwy ein rhestr flaenoriaeth, fel darparu mannau i storio beiciau a mannau eistedd pan fydd angen gorffwys er mwyn manteisio ar unrhyw gyllid yn y dyfodol er budd ein cymunedau.

Bydd newid ymddygiad ein cymunedau i sicrhau bod Teithio Llesol yn cael ei ystyried fel y dull teithio a ffefrir wrth deithio’n lleol yn her, ond yn absenoldeb ymgyrch genedlaethol i newid ymddygiad, byddwn yn parhau i ymgysylltu â’n cymunedau a gweithio gyda’n partneriaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau twf mwyaf posibl o ran teithio llesol.

**Cysylltedd Digidol**

Rydym wedi buddsoddi mewn Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Materion Digidol a ThG, i helpu i ddod â'n swyddogaethau Digidol, Data a Thechnoleg at ei gilydd  Ac rydym wedi cyflwyno Strategaeth newydd Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid. Mae'r strategaeth hon, fodd bynnag, yn dibynnu ar newid diwylliannol sylweddol yn y ffordd y mae ein timau'n meddwl am wasanaethau a’u cynllunio. Bydd cyflymu'r newid diwylliannol hwn yn ffocws sylweddol i ni yn y flwyddyn nesaf.

**Cysylltu ein cymunedau**

Mae ein Hagwedd Cymunedau dal i fod yn newydd. Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar gryfhau ein perthynas â'n cymunedau, arweinwyr cymunedol a'r trydydd sector, fel bod gan y system gymunedol y gallu i fynd i'r afael â heriau ar lefel leol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng annog gweithgarwch cymunedol a chanolbwyntio'r gweithgaredd hwnnw ar y blaenoriaethau hynny sydd o’r pwys mwyaf i bobl leol.

## AMCAN LLESIANT 5:

***Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol***

**Mynd i'r afael â'n hargyfyngau hinsawdd a natur, drwy leihau ein hallyriadau, annog bioamrywiaeth a diogelu mannau gwyrdd …**

Ein nod yw bod ein trefi, ein strydoedd a'n hamgylchedd naturiol yn lleoedd hardd, deniadol, glân a chynaliadwy. Mae cynnal a buddsoddi mewn mannau gwyrdd, ffyrdd a phalmentydd i annog teithio llesol ac annog y gymuned i’w defnyddio, yn hanfodol i gyflawni nodau ein Cynllun Sirol.

Rydym yn gwerthfawrogi na fyddwn yn gallu cyflawni'r rhwymedigaethau hyn oni bai ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hyn yn golygu datgarboneiddio ein cerbydau a'r ffyrdd yr ydym yn teithio, newid y ffyrdd yr ydym yn gwresogi ac yn pweru ein hadeiladau a lleihau effeithiau'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu o ran carbon.

Mae angen i ni nid yn unig i weithio gyda'n cymunedau, ond rhaid i ni hefyd weithredu fel arweinydd cymunedol i annog y newid i ddod yn garbon sero net, er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu'r amgylchedd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd cymryd camau i liniaru risgiau newid yn yr hinsawdd yn cyfrannu at les yn y dyfodol a sicrhau bod ein hasedau naturiol yn cael eu rheoli'n dda ac mewn cyflwr da yn golygu y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r manteision. Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi ein cymunedau ar y daith sero net a rhoi cyfleoedd iddynt gyfrannu tuag at ein hamcanion argyfwng hinsawdd a natur. Er ein bod eisoes yn gwneud nifer o bethau i leihau allyriadau carbon, paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac amddiffyn natur, rydym yn ymwybodol bod angen cymryd llawer mwy o gamau.

Er mwyn canolbwyntio ein hymdrechion, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i fynd i'r afael â'n hargyfyngau hinsawdd a natur, sut y byddwn yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol. Ym mis Chwefror 2022 cymeradwyodd ein Cabinet ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, sy'n nodi'r berchnogaeth, yr atebolrwydd a'r sicrwydd pendant sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith cyflenwi.

Ym mis Tachwedd 2022, cyflwynwyd drafft cynnar o'n cynllun cyflawni sylfaenol i'n Tîm Arweinyddiaeth, ynghyd ag adroddiad 6 mis ar berfformiad. Cytunwyd y dylid crynhoi ein 8 thema a 45 o gamau gweithredu i 4 ffrwd waith, gan ei gwneud yn llawer haws mesur cynnydd yn erbyn pob un o'n hamcanion, sef:

Ffrwd waith 1: Mae'r Cyngor ei hun yn dod yn garbon sero net erbyn 2030.
Ffrwd waith 2: Mae'r Cyngor yn arwain, yn cefnogi, yn hwyluso, ac yn annog cymunedau, trigolion a busnesau Torfaen tuag at garbon sero-net erbyn 2050.
Ffrwd waith 3: Mae ein hinsawdd sy'n newid yn cael ei gynnwys yn y ffordd yr ydym yn cynllunio, fel ein bod yn meithrin gwydnwch yn ein cymunedau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.
Ffrwd waith 4: Mae adnoddau naturiol gwerthfawr Torfaen, a'r bioamrywiaeth y maent yn ei gefnogi yn cael eu diogelu a'u gwella.

Gyda'n holl strategaethau allweddol, wrth symud ymlaen, rydym yn edrych i wella sut y bydd ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cefnogi datblygiad a chyflawniad y Cynllun Sirol, gan sicrhau bod ein holl Gyfarwyddiaethau yn ystyried sut y gallant gyfrannu orau at yr agenda / amcan llesiant hwn .

Mae'r cynnydd allweddol a wnaed hyd yma dyn ystod 2022/23 fel a ganlyn:

- Gosod technoleg adnewyddadwy gydag allbwn o hyd at 355kW yn asedau ein cyngor.
- Rheoli 14% o fannau gwyrdd o ran bioamrywiaeth, ac mae mwy o safleoedd i'w hychwanegu
- Rheoli 7 Gwarchodfa Natur Leol er budd natur a phobl.
- Agor 1 siop ail-ddefnydd nesaf at ein Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Y Dafarn Newydd
- Gosod 21 o beiriannau gwefru dwbl sy'n gallu gwefru 42 o gerbydau trydan, i'w defnyddio gan y cyhoedd.
- Gweithio gyda rhwydwaith o Lysgenhadon Hinsawdd Cymunedol sy'n canolbwyntio ar helpu'r fwrdeistref i ddod yn garbon sero net erbyn 2050.
- Creu 57.4 cilomedr o lwybrau teithio llesol, sydd bellach ar waith yn Nhorfaen.
- Prynu 15 car trydan ar gyfer fflyd y cyngor.



Hefyd yn 2022/23, fe wnaeth 7 o'n safleoedd yn Nhorfaen dderbyn y wobr Faner Werdd arobryn sy'n cydnabod eu cyfleusterau rhagorol i ymwelwyr, eu safonau amgylcheddol uchel, a'u hymrwymiad i ddarparu man gwyrdd o ansawdd wych.

Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan elusen amgylcheddol Cadw Cymru'n Daclus, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaeth arbenigwyr annibynnol yn y maes mannau gwyrdd rhoi o'u hamser yn wirfoddol ar ddechrau'r hydref i farnu'r safleoedd a ymgeisiodd a hynny yn ôl wyth maen prawf llym yn cynnwys, bioamrywiaeth, glendid a rheolaeth amgylcheddol a chynnwys y gymuned.

Y safleoedd a wobrwywyd yw Llyn Cychod Cwmbrân, Llynnoedd y Garn, Parc Panteg, Parc Pont-y-pŵl, Coetir Cymunedol Blaen Bran, Gwarchodfa Natur Leol Henllys a Gardd Furiog Llanfrechfa Grange.

O ran adeiladu ar lwyddiant, rydym hefyd wedi:

- Dechrau'r broses o greu Gwarchodfa Natur Leol newydd ym Mlaenserchan, i ddiogelu tir sy'n arbennig o werthfawr i natur ac i gynnig cyfleoedd i gynnwys y gymuned
- Diwygio ein dull o reoli glaswelltir ar gyfer 42 o safleoedd i ddal a storio carbon, gwella bioamrywiaeth, a darparu lle hefyd ar gyfer chwaraeon a hamdden
- Lansio Canllawiau Seilwaith Gwyrdd, a Bioamrywiaeth i ddatblygwyr i sicrhau y bydd unrhyw brosiectau yn y dyfodol yn Nhorfaen yn parhau i wella ein bioamrywiaeth a pheidio â'i niweidio.

## Lleihau ein gwastraff…

Mae cynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio yn un peth y gall pob un o'n trigolion ei wneud i fyw'n fwy cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyrraedd targed ailgylchu a chompostio o 70% erbyn 2024/25, sy'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru - Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Mae hyn yn her sylweddol i'n Cyngor ac yn un y bydd angen gweithio'n agosach â chymunedau er mwyn cyflawni'r garreg filltir hon.

Mae'r adran Rheoli Gwastraff yn Nhorfaen wedi perfformio'n dda yn hanesyddol ac yn bennaf wedi cyflawni'r targedau cyfraddau ailgylchu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diweddaraf, fodd bynnag, mae Torfaen wedi tanberfformio yn ei dargedau, a hynny'n rhannol oherwydd y pandemig, ac mae wedi cael trafferth adfer.

Ar hyn o bryd rydym yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu tua 59.84% o wastraff trefol a gesglir, sy'n parhau i fod yn is na tharged statudol Llywodraeth Cymru, sef 64%.




Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau gwastraff a byddwn yn parhau i adolygu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu gyda'r nod o wella perfformiad a chyflawni targed cyfradd ailgylchu Llywodraeth Cymru sef 70% yn 2024/25.

Yn 2023, gwahoddodd y Cyngor Archwilio Cymru i adolygu ei wasanaeth ailgylchu i helpu i gynghori'r Cyngor ar sut y gallai wella a chymryd y camau angenrheidiol i adfer ei berfformiad da blaenorol a sicrhau bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni 70%. Canfu Archwilio Cymru fod y Cyngor yn deall y rhesymau pam nad oedd y gwasanaeth yn cyrraedd y targedau ac roedd angen iddo roi cynllun ar waith fel bod gan y Cyngor daflwybr sy'n glir o ran penderfyniadau polisi, penderfyniadau buddsoddi a'r rôl y mae'n rhaid i gymunedau ei chwarae er mwyn llwyddo.

Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ar ôl i ni wneud penderfyniad dewr i newid ein strategaeth ynglŷn a'r ffordd ymlaen gyda gwastraff o ganlyniad yr adborth a dderbyniom yn rhan o'n ymarfer ymgynghori. Ers hyn, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda thrawsdoriad o Aelodau drwy'r Bwrdd Partneriaeth Strategol a rhanddeiliaid (WRAP / Partneriaeth Leol) i sefydlu rhaglen a fframwaith llywodraethu cadarn, er mwyn galluogi'r Cyngor a'r gwasanaeth i lwyddo.

## Ein Prif Heriau…

### Lleihau Gwastraff ac Ôl Troed Carbon

Mae cynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio yn un peth y gall pob un o'n trigolion ei wneud i fyw'n fwy cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyrraedd targed ailgylchu a chompostio o 70% erbyn 2024/25, sy'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru - Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Mae hyn yn her sylweddol i'n Cyngor ac yn un y bydd angen gweithio'n agosach â chymunedau er mwyn cyflawni'r garreg filltir hon

Gan weithio gyda chymunedau a hefyd gyda rhaglenni cenedlaethol, mae'n rhaid i ni sicrhau y gall Torfaen fel arweinydd cymunedol, hwyluso trosglwyddo system gyfan i garbon sero net er mwyn sicrhau ein bod yn amddiffyn ein hamgylchedd, ein ffordd o fyw a lles cenedlaethau'r dyfodol.

## AMCAN LLESIANT 6:

***Gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd.***

### Denu busnesau newydd…

Mae llwyddiant a ffyniant yr economi leol yn hanfodol er mwyn cyflawni llawer o'r hyn sydd yn ein Cynllun Sirol.

Profwyd bod cyswllt rhwng canlyniadau economaidd gwell ac iechyd, lles cymunedol a hyder unigolion i ddyheu a llwyddo, beth bynnag yw eu huchelgais.

Ni all economi Torfaen weithredu ar ei phen ei hun. Mae'n rhan o jig-so rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol llawer mwy, ond gall y rhaglenni a ddarperir gan y cyngor a'r perthnasoedd y mae'n eu ffurfio hwyluso ac annog twf.

Mae ein heconomi yn amrywiol. Mae ganddi gryfderau y gallwn fanteisio arnynt a heriau yr ydym am eu goresgyn. Mae'r cyngor am fanteisio ar gryfder y gweithlu medrus iawn sy'n seiliedig yn bennaf ar weithgynhyrchu uwch i arallgyfeirio'r sectorau i annog twf, gyda ffocws penodol ar y sector gwyddorau bywyd.

Mae'r cyngor am adeiladu ar raglenni cenedlaethol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo arloesi, meithrin entrepreneuriaeth leol a hyder i dorri tir mewn marchnadoedd newydd gan fachu cyfleoedd i adeiladu economi ddeinamig, weithredol sy'n cael ei harwain gan ymchwil. Yn rhan o'r strategaeth hon, sicrhaodd y Cyngor bron i £1m gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer ystod o brosiectau sydd â'r nod o gefnogi arloesedd, twf busnes a digideiddio busnesau.

Yn ystod 2023-2024/2025 mae'r prosiectau hyn yn dod yn rhai allweddol y gellir eu cyflawni o fewn y Cynllun Sirol, gyda'r nod o greu dros 50 o swyddi newydd, diogelu 150 o swyddi a chreu dros 50 o fusnesau newydd yn y fwrdeistref.

Gyda chynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol ein trefi, mae'r Cyngor am adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn defnyddio canol trefi fel bod gennym drefi mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i uchelgeisiau beiddgar ar gyfer adfywio'r adeiladau a'r mannau cyhoeddus fel eu bod yn denu trigolion, busnesau ac ymwelwyr i helpu i gadw'r bunt yn yr economi leol. Dan arweiniad y cymunedau ym mhob un o'n trefi, rydym yn ceisio ysbrydoli hyder a denu buddsoddiad arloesol.

Ar ddechrau 2022, Pont-y-pŵl oedd un o'r 11 prosiect yn unig yng Nghymru i dderbyn grant Cronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth Cymru, sy'n anelu i greu swyddi newydd a thyfu'r economi leol.

Bydd y grant o £7.6 miliwn yn helpu i ariannu ein prosiect *Hwb Diwylliannol Pont-y-pŵl* sy'n costio £9.3 miliwn, y bydd rhan ohonno yn trawsnewid adfeilion a chreu canolfan ddiwylliannol sy'n ffynnu, i gynnwys bwyty newydd, i hybu'r economi nos a natur ddeniadol y dref.

Bydd y buddsoddiad yn:



- trawsnewid Eglwys Sant Iago, adfail rhestredig Gradd II i fod yn ganolfan ddiwylliannol ffyniannus gyda sinema sbonc, mannau gwerthu bwyd a lle ar gyfer arddangosfeydd, bar gyda lle i eistedd yn yr awyr agored a dan do a lle i ddigwyddiadau cymunedol.
- troi toiledau cyhoeddus yn gaffi/bwyty a fydd yn cynnig bwyd caffi o ansawdd uchel yn ystod y dydd, ac a fydd yn troi'n fwyty "platiau bach" gyda'r hwyr.
- troi'r maes parcio presennol i fod yn lle diogel i barcio i bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau yma a'r dref.

Bydd y prosiectau'n creu swyddi, yn sbarduno twf economaidd, yn helpu i adfer balchder pobl yn y lleoedd y maent yn byw ac yn lledaenu cyfleoedd yn fwy cyfartal.

Disgwylir i'r prosiect Hwb Diwylliannol gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025.

## Ein Prif Heriau…

### Economi

Mae llwyddiant a ffyniant yr economi leol yn hanfodol o ran cyflawni llawer o'r hyn sydd yn ein Cynllun Sirol. Profwyd bod cyswllt rhwng canlyniadau economaidd gwell ac iechyd, lles cymunedol a hyder unigolion i ddyheu a llwyddo, beth bynnag yw eu huchelgais. Ni all economi Torfaen weithredu ar ei phen ei hun. Mae'n rhan o jig-so rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol llawer mwy, ond gall y rhaglenni a ddarperir gan y cyngor a'r perthnasoedd y mae'n eu ffurfio hwyluso ac annog twf.

Rydym am fanteisio ar gryfder y gweithlu medrus iawn sy'n seiliedig yn bennaf ar weithgynhyrchu uwch i arallgyfeirio'r sectorau i annog twf, gyda ffocws penodol ar y sector gwyddorau bywyd.

Gan adeiladu ar raglenni cenedlaethol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo arloesi, rydym am feithrin entrepreneuriaeth lleol a hyder i dorri tir mewn marchnadoedd newydd gan fachu cyfleoedd i adeiladu economi ddeinamig, weithredol sy'n cael ei harwain gan ymchwil.

## AMCAN LLESIANT 7:

***hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol.***

### Hyrwyddo iechyd meddwl a lles…

Bydd annog ffyrdd iach o fyw ymhlith ein trigolion nid yn unig o fantais iddynt yn awr, ond bydd hefyd yn meithrin ymddygiadau da a manteision parhaus yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae cadw pobl yn iachach ac yn annibynnol am fwy o amser drwy leihau'r siawns o salwch, hefyd yn lleihau'r angen i ddibynnu ar wasanaethau statudol.

Mewn ymgais i gynyddu cyfleoedd a mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol i drigolion Torfaen rydym wedi cefnogi nifer o glybiau yn ystod 2022, gan eu helpu i gael cyllid pellach a darparu addysg i hyfforddwyr trwy Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol, Diogelu a Chyngor Canolog y Deyrnas Unedig dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr (UKCC). Fe wnaeth 24 o glybiau dderbyn cyllid gwerth cyfanswm £302,732 yn 22/23, drwy Chwaraeon Cymru Grantiau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol. Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru ac ar strategaeth 3G a fydd yn ymgysylltu â'r holl bartneriaid, yn enwedig Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen.

Fe wnaethom barhau i weithio gyda'n Cydweithwyr yn y maes Iechyd a chynyddu nifer y partneriaid yn unol â hynny, sef Iechyd y Cyhoedd, Grwpiau Dementia, Elusennau Iechyd Meddwl ac ati. Bydd hyn yn ddylanwadol ac yn helpu i lunio'r gwaith yn y dyfodol ar lefel leol a rhanbarthol ac mae'n cynnig gwaith

rhanbarthol Marmot a Strategaeth Gordewdra Gwent i hyrwyddo manteision ffordd o fyw sy'n actif yn gorfforol.

Lansiwyd rhaglen gymorth newydd a chyffrous i dadau ym mis Ionawr 2002, sy'n cynnwys rhaglen 11 wythnos, gyda'r nod o helpu a chefnogi tadau newydd a darpar dadau, gyda phlant hyd at 18 mis oed.




Mae'n cynnwys gweithdai a sgyrsiau wythnosol sy'n trafod ystod eang o bynciau, yn cynnwys:

- Iechyd a lles
- Diet a maeth
- Gwybodaeth gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd
- Seicoleg
- Gamblo a gemau

Dyfeisiwyd y rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan ein Tîm Datblygu Chwaraeon Torfaen yn dilyn ymchwil gan nifer o sefydliadau gan gynnwys *Fathers Outreach, Tidy Butt, Seicoleg Gwent, Recoveries 4 All a Dinas Casnewydd yn y Gymuned*, a ganfu fod dynion yn elwa o gael lle diogel, lle gallant holi cwestiynau a dysgu amdanynt eu hunain a'u plant, wrth iddynt ddechrau ar eu siwrnai i fod yn dad.

Gan barhau i annog a chefnogi iechyd meddwl a lles yn ein bwrdeistref, rydym hefyd wedi datblygu ardaloedd chwarae sefydlog ym Mharc Pont-y-pŵl ac ar safle Llyn Cychod Cwmbrân, i wella'r dewis o offer chwarae sydd ar gael i blant ag anableddau. Cafodd y prosiectau hyn eu hariannu'n llawn gan y Cyngor drwy ei Gronfa Adfer yn Dilyn Covid.

Gan weithio gyda grŵp prosiect, sy'n arbenigo mewn plant ag anableddau ac awtistiaeth, rydym wedi cymryd syniadau a'u troi'n ddyluniadau. Cafodd yr offer chwarae cynhwysol newydd ei osod ym Mharc Pont-y-pŵl ym mis Hydref 2022, gan ddarparu rowndabowt a thrampolîn sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Mae cael parciau chwarae cynhwysol yn y fwrdeistref mor bwysig ar gyfer iechyd a lles plant, ac rydym yn gobeithio y bydd gan fwy o'n parciau offer cynhwysol yn y dyfodol.



Ochr yn ochr ag awdurdodau lleol eraill yng Ngwent rydym yn cydweithio i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â'r heriau allweddol o ran lles yn awr ac yn y dyfodol yn y rhanbarth, i leihau anghydraddoldeb sy'n effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd.

Mae amcanion llesiant y Cyngor yn cysylltu ag egwyddorion Marmot, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae wyth egwyddor Marmot, fel a ganlyn:

1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
2. Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i gynyddu eu galluoedd i'r eithaf a bod â rheolaeth dros eu bywydau
3. Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
4. Sicrhau safon byw iach i bawb
5. Creu a datblygu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy
6. Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd
7. Mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'r deilliannau yn sgil hynny
8. Ceisio cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch iechyd gyda'n gilydd

Bydd ein hamcan i 'annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn iddynt ffynnu' yn cefnogi egwyddor Marmot i 'roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn'.

Fe wnaeth Adroddiad Ecwiti y Sefydliad Iechyd, 'Gwent Teg i Bawb – Gwella Tegwch Iechyd a'r Penderfynyddion Cymdeithasol' dynnu sylw at nifer o argymhellion i wella mynediad at fannau diogel a chymhwysol i chwarae. Mae parciau a mannau gwyrdd yn arfau pwerus i wella iechyd a lles. Rydym wedi ymrwymo i wella'r cyfleoedd i'r rheini sy'n byw ardaloedd sydd yn fwy difreintiedig, ddefnyddio mannau gwyrdd a chreu parciau chwarae cynhwysol ledled y fwrdeistref i wella iechyd a lles plant.

## Ein Prif Heriau…

Ni nodwyd unrhyw heriau allweddol.

## AMCAN LLESIANT 8:


***Cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef***

## Creu lleoedd diogel a deniadol i fyw …

Rydym am i'n trefi, ein strydoedd a'n hamgylchedd naturiol fod yn ddeniadol, yn lân ac yn gynaliadwy. Yn aml, mae'r balchder aruthrol mewn cymunedau lleol yn cael ei niweidio gan y lleiafrif. Er nad yw'n sylweddol wahanol i'r ardaloedd cyfagos, mae gormod o sbwriel, gormod o dipio anghyfreithlon ac mae'r cyngor am weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau i roi terfyn ar y fath ymddygiad, er lles pawb.

Mabwysiadwyd ein Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi'r cyd-destun cenedlaethol a lleol o ran sbwriel a thipio anghyfreithlon, gan egluro achosion a chanlyniadau sbwriel yn lleol ac yn fyd-eang a phwysigrwydd gweithredu yn Nhorfaen. Er bod y dull presennol wedi llwyddo i ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran camau atal tipio anghyfreithlon a sbwriel, mae mannau penodol lle gwelir sbwriel a thipio anghyfreithlon yn mynd rhagddynt o hyd ac mae'n anodd eu cadw'n lân am amrywiaeth o resymau sy'n ymwneud â hygyrchedd, rhesymau iechyd a diogelwch, perchnogaeth safle a chyfyngiadau eraill. Mae'r strategaeth yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgareddau i atal, sy'n ddigon teg. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â chymunedau, ysgolion a busnesau, tra hefyd yn canolbwyntio ar addysg a chodi ymwybyddiaeth, ac fel dewis olaf...gorfodi.

Yn 2022, mae ein Tîm Diogelu'r Cyhoedd wedi parhau i ymchwilio i adroddiadau o dipio gwastraff yn anghyfreithlon, i ganfod troseddwyr a chymryd camau gorfodi ffurfiol, fel y bo'n briodol. Rydym hefyd wedi adolygu dull newydd o atal a gorfodi, mewn ymgais i leihau tipio anghyfreithlon ymhellach yn y Sir.




O gymharu â 20/21 a 21/22 mae ein perfformiad o ran **% y gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon sy'n cynnwys tystiolaeth yn dangos o ble y daeth y sbwriel, a arweiniodd at gamau anffurfiol** wedi cynyddu. Mae nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt a'r camau y llwyddwyd i'w cymryd ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd, yn llai yn 22/23 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Yn gysylltiedig â'r amcan hwn, ein nod arall yw creu Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer canol ein trefi, felly'n atal dirywiad, meithrin gobaith ac uchelgeisiau ac ysbrydoli hyder drwy fuddsoddiadau arloesol, trwy adfywio mannau cyhoeddus mewn modd uchelgeisiol a mentrus.

Cyhoeddwyd cynlluniau i adfywio canol trefi Blaenafon a Phont-y-pŵl ym mis Mai 2022, gyda'r nod o ailddatblygu'r ardaloedd ar gyfer y bobl sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yno, yn ogystal â denu busnesau ac ymwelwyr newydd.



Mae'r cynlluniau ar gyfer Blaenafon yn cynnwys gwella cysylltiadau rhwng y dref a'r atyniadau twristaidd lleol, gwella mannau cyhoeddus gan gynnwys Sgwâr y Farchnad, a chynllun i ddod â masnachwyr newydd i'r dref.

Mae'r weledigaeth ar gyfer Pont-y-pŵl yn cynnwys: caffi newydd a hwb diwylliannol ar Hanbury Road sy'n cysylltu'r parc a chanol y dref, ailddatblygu maes parcio'r Ganolfan Ddinesig i'w wneud yn fwy hygyrch a mwy o welliannau i'r farchnad.

Mae disgwyl i'r cynlluniau ar gyfer Cwmbrân gael eu lansio yn 2023 yn dilyn trafodaethau manylach gyda pherchnogion Canol Tref Cwmbrân.



Ymgynghorwyd â thrigolion a busnesau lleol i glywed eu barn am y Cynlluniau Creu Lleoedd, a fydd yn helpu i osod ein dyheadau dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r rhain yn gynlluniau tymor hir i raddau helaeth, sy'n dangos ein hymrwymiad i fuddsoddi yn nyfodol Blaenafon a Phont-y-pŵl.

## Ein Prif Heriau…

### Cymunedau

Mae balchder a hyder ein trigolion yn eu sir yn aml yn cael eu llywio gan y ffordd y maen nhw'n canfod ac yn graddio eu hamgylchedd lleol. Lle maen nhw'n byw, lle maen nhw'n gweithio a lle maen nhw'n mynd o ran hamdden a siopa.

Rydym am i'n trefi, ein strydoedd a'n hamgylchedd naturiol fod yn ddeniadol, yn lân ac yn gynaliadwy. Yn aml, mae'r balchder aruthrol mewn cymunedau lleol yn cael ei niweidio gan y lleiafrif. Er nad yw'n sylweddol wahanol i'r ardaloedd cyfagos, mae gormod o sbwriel, gormod o dipio anghyfreithlon ac mae'r cyngor am weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau i roi terfyn ar y fath ymddygiad, er lles pawb.

Mae cynnal a buddsoddi yn ein hasedau fel ein parciau, ein mannau gwyrdd a naturiol a hefyd ein ffyrdd a'n palmentydd i hyrwyddo teithio llesol, hybu'r gymuned i'w defnyddio a hwyluso cysylltiadau rhwng y cymunedau, cymdogion a helpu pobl i gael hyd i gyfleoedd hamdden a chyfleoedd gwaith yn hanfodol os ydym am gyflawni nodau ein Cynllun Sirol.

Gyda chreu Cynlluniau Lle ar gyfer canol ein trefi mae'r Cyngor am ailbennu eu pwrpas, i atal eu dirywiad a meithrin uchelgais a gobaith. Mae'r Cyngor am feithrin ynom, hyder o ran canol ein trefi, drwy fuddsoddi arloesol, uchelgeisiau beiddgar wrth adfywio i greu mannau y mae ein trigolion, busnesau ac ymwelwyr am ymweld â hwy a helpu i gadw'r bunt yn yr economi leol.

## AMCAN LELSIANT 9:
**Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau**

## Darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid…

Mae ein Cynllun Sirol yn ceisio harneisio'r rôl y mae cymunedau eisoes yn ei chwarae, a hynny'n fwy effeithiol, drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth drwy ganolbwyntio mwy ar adnoddau i ymyrryd yn gynnar ac atal. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n golygu bod angen i ni ailgynllunio gwasanaethau'n seiliedig ar y ffordd y mae cwsmeriaid yn byw eu bywydau ac yn defnyddio ein gwasanaethau.




Yn ystod 2022 rydym ni wedi:

- Cynnwys ein cwsmeriaid wrth ddylunio ein gwasanaethau i wella cynnwys ar ein gwefan fel ei bod yn llawer haws dod o hyd i wybodaeth a chwblhau gwasanaethau ar-lein. Mae hyn eisoes wedi'i gysylltu â gweithgarwch cyfathrebu allweddol gan gynnwys Gwastraff ac Ailgylchu, Cymorth Costau Byw, Ffyrdd, Teithio a Pharcio a'r deddfwriaeth 20mya, newydd. rhaglen dreigl o welliannau i'r wefan yn cael ei chyflwyno yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- Dechrau datblygu Strategaeth Cymunedau sy'n cynnig fframwaith o gyngor, cymorth a chefnogaeth sydd ar gael yn agos at gartrefi trigolion
- Datblygu Cynllun sy'n Ystyriol o Oedran a chreu rôl ymgynghorydd a all ein cynghori ac archwilio i ba raddau y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn.
- Trefnu Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain i fynychu cyfarfodydd Fforwm Mynediad Torfaen, felly'n galluogi aelodau'r gymuned Byddar i fynychu a rhannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus a chymryd rhan yn ein ymgynghoriadau.
- Cyhoeddi ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ac ail-lansio Panel Pobl Torfaen i sicrhau bod ein trigolion yn cael cyfle i ddylanwadau ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gymuned ehangach.

**Ein prif Heriau…**

**Cysylltedd Digidol**

Rydym wedi buddsoddi mewn Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Materion Digidol a ThG, i helpu i ddod â'n swyddogaethau Digidol, Data a Thechnoleg at ei gilydd Ac rydym wedi cyflwyno Strategaeth newydd Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid. Mae'r strategaeth hon, fodd bynnag, yn dibynnu ar newid diwylliannol sylweddol yn y ffordd y mae ein timau'n meddwl am wasanaethau a'u cynllunio. Bydd cyflymu'r newid diwylliannol hwn yn ffocws sylweddol i ni yn y flwyddyn nesaf.

## Ein blaenoriaethau a heriau yn y flwyddyn nesaf

Drwyddi draw yn yr adran hon o'n hadroddiad rydym wedi nodi nifer o heriau yr ydym yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â phob un o'n hamcanion llesiant. Bydd angen goresgyn y rhain er mwyn i ni wireddu ein huchelgeisiau. Er mwyn bwrw ymlaen â'n huchelgeisiau yn y flwyddyn i ddod rydym wedi cyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer 2023/24

Datblygwyd ein cynllun cyflawni ar gyfer 2023/24 gan ystyried yr heriau allweddol newydd, y rhai sy'n bodoli eisoes a'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2022/23.

Mabwysiadwyd ein **Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24** gan y Cyngor a chafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023. Mae'n symud ein huchelgeisiau i gamau gweithredu wrth i ni gamu tuag at gam nesaf tuag at gyflawni ein Cynllun Sirol. Mae'r dull blynyddol hwn o gynllunio sirol yn golygu y bydd ein cynlluniau wrth symud ymlaen yn ailadroddol ac yn ystwyth, gan ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi y gellir ymateb iddynt, drwy gydol oes y Cynllun Sirol.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein dull monitro wrth gynllunio gwasanaethau i fonitro a dangos ein cynnydd yn rheolaidd, er mwyn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn ganolog i gyflawni ein dyheadau.

## b. Torfaen: Dod yn Gyngor Rhagorol

Mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgarwch y Cyngor.

Mae datblygu ein Cynllun Sirol yn bwysig wrth bennu ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau, ond heb ddiffinio'r amodau sefydliadol penodol, ni fyddwn byth mor effeithiol ag y gallwn fod wrth gyflawni'r holl ganlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni.

Yn ystod 2021-22, aethom drwy broses o ddatblygu fframwaith - cyfres o 8 nodwedd, yr ydym yn eu defnyddio i ddiffinio'r hyn y mae Cyngor rhagorol yn ei olygu, i'n galluogi i asesu ein perfformiad (***gweler y diagram isod)***. Mae'r fframwaith hwn yn darparu strwythur yr ydym wedi'i ddefnyddio, ochr yn ochr â'n Cynllun Sirol, i ddatblygu ein hunanasesiad blynyddol. Dyma'r ail flwyddyn i ni adrodd ein cynnydd o ran ein Nodweddion sy'n diffinio Cyngor Rhagorol.

Wrth ddatblygu ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol, rydym nid yn unig wedi ystyried yr hyn sy'n bwysig o'n safbwynt ni, ond rydym hefyd wedi mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan ystyried yr egwyddor cynaliadwyedd a'r 7 maes penodol o lywodraethu corfforaethol. Bydd y nodweddion hyn, ynghyd â gwerthoedd ein sefydliad, yn ein helpu i greu'r amodau cywir i gymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

Diffinnir pob nodwedd arall gan gyfres o ddatganiadau ategol, yn egluro ymhellach yr hyn y mae'r nodweddion yn eu golygu, felly'n ein galluogi i asesu i ba raddau yr ydym yn gweithredu, fel cyngor rhagorol.


Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi cynnal ymarferion monitro o ran y gweithgareddau yr ystyriwn yn feysydd i'w gwella neu eu datblygu yn adroddiad hunanasesu y llynedd. Adlewyrchir y gweithgareddau hyn yn y Cynlluniau Gwasanaeth priodol ac mae'r Cyfarwyddiaethau'n mynd ati i'w monitro bob chwarter cyn mynd ymlaen i'w hadrodd i'n Tîm Rheolwyr bob chwe mis. Os teimlwn fod yna feysydd nad ydynt wedi gwella fel y bwriadwyd, byddwn yn parhau i fonitro'n agos yn y flwyddyn i ddod i helpu i gyflawni ein huchelgais o ddod yn Gyngor rhagorol.

Wrth adolygu'r broses a ddilynwyd i baratoi ein hadroddiad hunanasesu blynyddol cyntaf, y teimlad oedd, wrth fyfyrio, ein bod wedi rhoi gormod o bwyslais ar weithgareddau gweithredol sy'n seiliedig ar wasanaethau yn hytrach na'n gweithgareddau strategol corfforaethol. Mae ein datblygiad fel Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf sydd wedi bod yn amlwg yn ddiweddar, gyda'r newidiadau i'r strwythur arweinyddiaeth i gyd0fynd a dull mwy corfforaethol/strategol wedi ein harwain i sicrhau y bydd yr adroddiad eleni yn cymryd agwedd fwy strategol.

Ym mis Mai 2023 aethom ati i gynnal digwyddiad uwch reolwyr. Un o'r pynciau ar yr agenda oedd ceisio barn ar sut roedd staff yn teimlo am ein Nodweddion. A oeddent yn teimlo eu bod yn bwrw gwreiddiau na a oedd angen mwy o waith?. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn gadarnhaol gyda phobl yn cytuno'n gyffredinol ein bod yn gweithio tuag at y set gywir o Nodweddion.

Mae'r Tîm Rheolwyr wedi cymryd rhan mewn gweithdai er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed yn 2022-23 a chytuno ar ble mae angen i ni ganolbwyntio ymdrechion yn y flwyddyn i ddod. Wrth symud ymlaen gyda mwy o eglurder ynghylch ein fframwaith mewnol ein hunain o ran gwella, rydym yn bwriadu ymgysylltu'n ehangach ar draws y sefydliad i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth am y fframwaith a chynaeafu syniadau ar gyfer gwelliannau pellach.

Fodd bynnag, y teimlad oedd bod angen diffiniad pellach i ddisgrifio'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth Gyngor Rhagorol yn well, a'r hyn yr oedd angen i ni ei wneud i ddod yn gyngor rhagorol. Aethpwyd ati i weithio ar ddiffinio ein nodweddion yn well ac fe wnaeth hyn wedi arwain at gyfres o ddisgrifwyr ar gyfer pob nodwedd. Gellir gweld y disgrifwyr hyn **yma**. Cafodd yr ymarfer hwn ei wneud ymhellach i'n helpu i ddiffinio'r hyn y credwn y mae rhagorol yn ei olygu, a'n helpu i werthuso pa feysydd sydd angen i ganolbwyntio arnynt i'n helpu i gyrraedd pen ein taith.




Yn dilyn adolygiad, rydym wedi defnyddio ein fframwaith i gwblhau hunanasesiad sefydliadol, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau y mae angen eu cymryd, wrth symud ymlaen. Mae ein cynnydd yn ôl ein hymrwymiadau yn cael ei fonitro bob blwyddyn ac adroddir ein canfyddiadau allweddol yn yr adran ganlynol yn yr adroddiad hwn.

## Ein Trefniadau Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn rhan annatod o allu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau allweddol wrth iddo ddefnyddio ei adnoddau yn effeithiol ac mewn modd economaidd.

Bob blwyddyn rydym yn cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) i amlinellu'r prosesau llywodraethu a'r trefniadau sy'n gweithredu o fewn y Cyngor. Mae'r DLlB yn cael ei baratoi gan y swyddogion hynny ar draws y Cyngor, y mae'n rhan o'u cylch gwaith i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ac yn cynnal agweddau llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn goruchwylio'r broses a ddilynir i lunio'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB)**, sydd yn fodd o adolygu cyn i'r Cyngor llawn fynd ati i'w fabwysiadu.

Mae'r DLIB yn rhan annatod o broses Hunanasesu'r Cyngor ac mae'n ffynhonnell dystiolaeth allweddol o ran ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y 'Nodweddion Cyngor Rhagorol' sydd gennym.

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i ymwreiddio'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 5 o aelodau etholedig yr awdurdod lleol a 3 aelod lleyg y mae un ohonynt yn Gadeirydd. Mae cyfuniad o aelodau awdurdodau lleol ac aelodau lleyg yn atgyfnerthu lefel yr her annibynnol o fewn y pwyllgor ymhellach. Yn ogystal â'i rôl yn adolygu ein DLIB, mae gan y pwyllgor rôl oruchwylio a sicrwydd allweddol mewn meysydd fel rheoli risg busnes (gan gynnwys monitro cofrestrau risg unigol y gyfarwyddiaeth), rheolaeth ariannol, Fframwaith Rheoli ein Cyngor a'n proses Gwyno. Rôl hanfodol arall sydd gan y pwyllgor yw rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i adroddiadau gan ein rheolyddion allanol.


Mae unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru a'n rheolyddion allanol eraill yn cael eu derbyn gan ein **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** a'u hychwanegu at Gynllun Gweithredu Llywodraethu a Gwella" y Cyngor. Dyma ddogfen allweddol y Cyngor i ddangos sut yr eir i'r afael â chynigion gwella/argymhellion a ddaeth i law ac y cytunwyd arnynt.

Rydym yn diweddaru ac yn adrodd yn rheolaidd ar ein Cynllun Gweithredu er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfrifoldeb pwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor yw monitro'r argymhellion ar gyfer gwasanaethau penodol ac mae diweddariadau blynyddol ar gynnydd yn cael eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion sicrwydd. Mae unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'r cynnydd a nodwyd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a/neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hamlygu mewn adroddiad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi atgyfnerthu arweinyddiaeth wleidyddol gyffredinol drwy gyflwyno craffu trawsbleidiol effeithiol a grwpiau ffocws trawsbleidiol. Mae hyn wedi arwain at gynllunio, gweithredu a darparu prosiectau a gwasanaethau sydd o flaenoriaeth ac sydd o bwys mawr i'n cymunedau, a hynny mewn modd llawer llyfnach. Mae gwaith trawsbleidiol wedi cynnwys Aelodau etholedig o wahanol gefndiroedd daearyddol a gwleidyddol yn cydweithio i wneud penderfyniadau sydd o fudd i etholwyr a'r sir gyfan Cydnabyddir y gallai fod gan Aelodau wahanol ideolegau a blaenoriaethau, ond mae'r dull hwn yn dangos gweithio blaengar yn Nhorfaen lle rhoddir blaenoriaeth i fuddiannau etholwyr a lles y cymunedau lleol uwchlaw ystyriaethau pleidiol.

Mae llywodraethu democrataidd cryf yn elfen allweddol o fod yn sefydliad a reolir yn dda ac felly mae'n hanfodol i fodloni ein gofynion o ran ein perfformiad. (Mae trosolwg o'n trefniadau llywodraethu wedi'i nodi, fel y gwelir isod ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein dogfen, **Cyfansoddiad y Cyngor,** sef ein fframwaith ffurfiol sy'n nodi sut mae'n rhaid i ni fel Cyngor weithredu a gwneud penderfyniadau sy'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol.

# EIN TREFN LLYWODRAETHU DEMOCRATAIDD



# Pwyntiau Dysgu Allweddol yn sgil Hunanasesu ein Nodweddion o ran dod yn Gyngor Rhagorol

Defnyddiwyd y wybodaeth helaeth sydd ar gael i ni er mwyn llunio darlun cyflawn o'n Cyngor i ddatblygu ein hunanasesiad. Mae trosolwg o'r dysgu allweddol a'r canfyddiadau wedi'u nodi isod.

**1. Cyngor arloesol sydd yn …**
- drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- barod i dderbyn risg
- meithrin arloesedd yn y gweithle a thu hwnt
- chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

**Casgliadau**

Mae ein ffocws wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'n nodweddion ac mae llawer o newidiadau wedi digwydd i'n helpu ni, fel Cyngor, i ddod yn fwy arloesol. Yn bwysicach, rydym wedi parhau i addasu'n gyflym ac ymateb yn gadarnhaol i heriau a mentrau newydd, gan ddangos bod ein bod yn barod i addasu a chyflawni mewn amgylchiadau sy'n newid yn barhaus. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen, rhaid i'n parodrwydd i gymryd risgiau a chyflawni prosiectau arloesol, newydd, gyd-fynd â'r bragmatiaeth sydd ei hangen i derfynu prosiectau pan welwn yn glir nad ydym yn medru eu datblygu neu ni fyddant yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd.

Rydym wedi cydnabod yr angen i ddatblygu'n ddigidol, gyda'n Strategaeth Ddigidol Cyntaf i Gwsmeriaid, sy'n nodi ein gweledigaeth strategol i sbarduno ein dyheadau. Bydd gweithredu ein strategaeth drwy ddefnyddio systemau, technoleg ac atebion diogel, cadarn a chydgysylltiedig mewn ffordd arloesol ac effeithiol yn ganolog os yw'r Cyngor am wella profiadau cwsmeriaid a deall data yn y blynyddoedd i ddod.

Mae ailgynllunio gwasanaethau hefyd wedi bod yn fater sylweddol drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â gweithredu newidiadau i'n prosesau Rheoli Risg i atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn rheoli ein risgiau ymhellach. Mae dull mwy cadarn o reoli risg ar waith ac mae'n parhau i ddatblygu, felly'n caniatáu inni rheoli arloesi a risgiau. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn adnabod ac yn rheoli ein risgiau ymhellach, i sicrhau bod camau'n cael eu dilyn a bod risgiau'n cael eu lliniaru mewn modd amserol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, rydym wedi nodi cwmpas i wella ein parodrwydd i dderbyn risgiau a'r ffordd yr ydym yn mynd ati i'w diffinio.

Rydym wedi mynd ati mewn ffordd uchelgeisiol i Ailgynllunio'r Gweithle drwy groesawu a manteisio ar y newidiadau yn y ffordd yr ydym yn gweithio ers Covid. Mae hyn wedi caniatáu inni ailgynllunio a thrawsnewid y ffordd y mae'r Ganolfan Ddinesig yn gweithio, fel bod gennym offer TG modern, wrth fynd ati i hyrwyddo lles ein staff i'r eithaf, i'n helpu i ddarparu gwasanaethau gwych ar gyfer ein trigolion, nawr, ac ymlaen i'r dyfodol.

Flwyddyn yn ôl fe wnaethom ddatgan ein bwriad i sefydlu ymagwedd 'cymunedau buddiant' i alluogi staff i gyfrannu mewn amrywiol ffyrdd at feysydd gwybodaeth neu ddiddordeb y tu hwnt i'w cwmpas proffesiynol arferol. Er bod hyn wedi cymryd mwy o amser i'w rhoi ar waith, mae'n symud ymlaen ar garlam erbyn hyn. Mae hyn wedi cynnwys gwaith proffilio gyda'n tîm arweinyddiaeth, gwaith parhaus ein Grŵp Uwch-arweinwyr (Torfaen y Dyfodol) a chyfres newydd o grwpiau staff fydd yn dechrau cyn hir. Bydd yr holl ffrydiau gwaith hyn yn sicrhau ein bod yn defnyddio amrywiaeth o dalentau a diddordebau ein staff yn y ffordd orau wrth ddatblygu rhaglenni gwaith newydd ar draws Torfaen.

Mae pob ffrwd waith wedi mynd â ni ymhellach ar ein taith i ddod yn fwy arloesol, ond rydym yn cydnabod bod dal angen i ni wneud llawer mwy o hyd.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C1.1 - Archwilio a deall ein parodrwydd i gymryd risg drwy:**

  - Archwilio sut yr ydym yn mynd ati i ddiffinio risg
  - Deall beth yw ein parodrwydd i gymryd risg
  - Gallu edrych ar risg o sawl safbwynt ac mewn gwahanol ffyrdd

- **C1.2 – Deall a Lleihau Gweithio mewn seilo drwy:**
  - Darparu mynediad at Gynlluniau Gwasanaeth ar draws ein Cyfarwyddiaethau yn gynnar, sy'n caniatáu cynllunio rhagweithiol ac yn lleihau'r risg o gynllunio, ar wahân.
  - Cyflwyno 'diwylliant o gynnig syniadau', gan alluogi ein staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno eu syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau, drwy amrywiaeth o grwpiau dan arweiniad staff.

- **C1.3 - Annog mwy o ystwythder drwy'r Cyngor drwy:**
  - Bod yn barod i wneud pethau'n wahanol a rhoi'r gorau i bethau yn gynt os nad yw prosiectau'n gweithio
  - Bod yn agored i fwy o heriau sy'n gysylltiedig â datblygu 'diwylliant o gynnig syniadau' (*gweler C1.2*).

**2. Cyngor uchelgeisiol â gweledigaeth sy'n…**
- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Sefydlu cyfeiriad pendant a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl-troed carbon

**Casgliadau**

Rydym yn cydnabod yr angen i osod cyfeiriad clir a rhannu ein nodau hirdymor ar gyfer gwella Llesiant ar draws Torfaen. Mae mabwysiadu ein Cynllun Sirol newydd ym mis Rhagfyr 2022 wedi ein helpu i wneud hynny. Mae ein Cynllun Sirol newydd yn disgrifio'n glir y canlyniadau/amcanion/gweithgareddau yr ydym yn anelu i'w cyflawni. Yn wleidyddol ac fel sefydliad, mae'n cael ei ddeall a'i gefnogi. Bydd Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn cael ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein dyheadau yn ystod hyd oes y Cynllun Sirol. Fe wnaethom hefyd gynhyrchu ein hail gynllun cyflawni blynyddol ar gyfer y Cynllun Sirol, yn nodi gweithgareddau a cherrig milltir y byddwn yn eu defnyddio i asesu'r cynnydd rydym yn ei wneud i gyflawni ein blaenoriaethau yn 2023-24. Ochr yn ochr â'n partneriaid ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau ar sail tystiolaeth i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â heriau allweddol i les yn awr ac yn y tymor hir ar draws y rhanbarth, er mwyn lleihau'r diffyg tegwch sy'n effeithio penderfynyddion iechyd. Bydd angen i ni ymgorffori'r dyhead hwn yn llawn yn ein dull cynllunio gwasanaethau er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Mae cysylltiadau proffesiynol a gwleidyddol wedi cael eu diffinio'n well. Yn benodol, dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu arweinyddiaeth wleidyddol yn gyffredinol wrth gyflwyno grwpiau craffu trawsbleidiol a grwpiau ffocws trawsbleidiol effeithiol (fel y disgrifir ar dud.*36*, '*Ein Trefniadau Llywodraethu*'). Yn wir, mae Aelod Llywyddol y Cyngor, y Cynghorydd Seabourne wedi datgan, '*mae hunanasesiad y Cyngor yn adlewyrchu cydweithio trawsbleidiol clodwiw ac arweinyddiaeth wleidyddol gref. Mae ysbryd cydweithredol yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael ag anghenion amrywiol ein cymuned a sbarduno newid cadarnhaol. Mae'n galonogol gweld ymrwymiad i gydweithio er mwyn gwella Torfaen'*.

Rydym yn hyderus ein bod yn parhau i greu diwylliant ac amgylchedd o arloesi a chreadigrwydd sydd bellach yn digwydd ar ras drwy'r sefydliad ac yn rhoi mwy o anogaeth i staff feddwl yn wahanol wrth ddatrys problemau. Mae hyn yn rhagofyniad o ran dod yn Gyngor Uchelgeisiol sydd â Gweledigaeth. Mae strwythur newydd ein Tîm Arweinyddiaeth, wedi annog dull mwy corfforaethol a cholegol o ddarparu gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i weithio'n wahanol gyda'n cymunedau er mwyn codi dyheadau. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r uchelgais hwn, rydym wedi creu Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cwsmeriaid a Materion Digidol newydd, fydd ein galluogi i ganolbwyntio mwy ar y gymuned wrth fynd ati i ddarparu gwasanaethau.

Rydym wedi sicrhau cymorth rhanbarthol gan ddechrau gyda'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol (GAC), sef y cynllun peilot ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Fe wnaeth ein rhaglen o 7 prosiect dderbyn y swm mwyaf o gyllid GAC o'r holl Awdurdodau Lleol yn y DU. Rydym hefyd wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid, drwy Raglen Ffyniant Gyffredin y DU, gyda dau gais arall ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro.

Rydym yn parhau i anelu at leihau ein hôl troed carbon drwy ddatblygu ymhellach ein Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Er y bydd hyn yn parhau i fod yn faes heriol i ni, rydym yn cydnabod yr angen i'w ddatblygu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni'r cynllun gweithredu hwn, gan adolygu cynnydd ac adrodd yn rheolaidd yn flynyddol.

Rydym wedi parhau i weithio tuag at ein cynllun 2-3 blynedd i gynyddu ein fflyd drydan yn unol â nodau Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cyflogi Swyddog Trafnidiaeth Allyriadau Sero a fydd yn helpu i gyflymu'r broses o gyflwyno Cerbydau Trydan, ac erbyn hyn mae gennym gyfanswm o 15 o gerbydau trydan yn ein fflyd. Mae gweithgor hefyd yn gweithio erbyn hyn i ddatblygu Strategaeth i Ddatgarboneiddio'r Fflyd a Chynllun Gweithredu yn 2023/24.

Un o'n camau allweddol yr adeg hon y llynedd oedd cyflawni cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono drwy adolygu ein Gwasanaethau Gwastraff. Roedd hyn oherwydd ein bod wedi tanberfformio yn ôl y targedau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd y pandemig yr ydym wedi ei chael hi'n anodd adfer ohono. Ar hyn o bryd rydym yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu tua 59.84% o'r gwastraff trefol a gesglir, ac mae hyn yn llai na'r targed statudol o 64% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cydnabyddir nad yw hyn yn ddigon da felly cyflwynwyd dull mwy strategol i weithio tuag at gyrraedd ein targed o 70%. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda chroestoriad o'r Aelodau, drwy'r Bwrdd Partneriaeth Strategol a rhanddeiliaid (WRAP / Partneriaeth Leol) i roi rhaglen gadarn a fframwaith llywodraethu ar waith, i alluogi'r Cyngor a'r gwasanaeth i lwyddo. Bydd ein gwaith yn y meysydd hyn yn cael ei fonitro drwy Gynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C2.1 -Cefnogi'r sefydliad i ymgorffori egwyddorion Marmot ym mhopeth a wnawn, gan, drwy:**
  - Ddatblygu a chyfleu naratif gyson drwy'r sefydliad i alluogi pob rhan o'r sefydliad ddeall sut y gallant gysylltu a chyfrannu at: amcanion llesiant ein sefydliad ac Egwyddorion Marmot.
  - Parhau i ymgorffori Egwyddorion Marmot yn ein trefniadau Cynllunio Gwasanaethau a Llywodraethu, drwy'r Cynllun Sirol newydd/Fframwaith Rheoli Perfformiad Dangosyddion Perfformiad Marmot.

**3. Cyngor sy'n perfformio'n uchel sy'n …**
- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- Sydd bob amser yn dysgu ac yn barod i wella
- Mesur yr hyn sydd o bwys i drigolion a chymunedau
- Defnyddio hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Deall ei bwrpas a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol

**Casgliadau**

Mae blociau adeiladu newydd cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Sirol newydd a'r cynllun cyflawni; Fframwaith Rheoli Perfformiad a dull gweithredu newydd, strwythur arweinyddiaeth newydd a gwireddu gwelliannau cadarnhaol o ran gwella ein gwasanaeth Addysg.

Mae datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP) newydd yn helpu i amlinellu a chyfleu ein dull datblygol o fonitro, adrodd a gwella perfformiad yn Nhorfaen. Mae ein proses Cynllunio Gwasanaeth newydd ar gyfer 2023-24 yn darparu dull mwy cyson ar draws y sefydliad, o ran diweddaru a monitro perfformiad. Mae gweithgareddau sy'n cynnwys Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau ein timau sy'n ein galluogi i fonitro ein gallu i gyflawni ein huchelgeisiau yn well.

Bydd ein Cynllun Sirol yn ein galluogi i gyfleu ein blaenoriaethau a'n disgwyliadau yn well sydd, erbyn hyn, yn benodol ac yn glir ac yn ein helpu i ddangos sut rydym yn anelu at wella ein gwasanaethau'n barhaus. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mesur yr hyn sy'n bwysig i'n preswylwyr ac mae angen mwy o waith i adolygu sut rydym yn casglu gwybodaeth gan ein preswylwyr i'n galluogi i fonitro data sy'n berthnasol iddynt hwy.

Rydym wedi ymateb mewn modd amserol, lle nodwyd materion yn ymwneud â pherfformiad gyda threfniadau llywodraethu newydd a mwy cadarn – fel yn y Gwasanaeth Gwastraff lle rydym wedi methu â chyrraedd ein targed statudol ac o'r herwydd mae dull strategol newydd wedi'i gyflwyno i weithio tuag at gyrraedd ein targed o 70%. (fel *y nodwyd uchod yn Nodwedd 2*). Er mwyn cefnogi ein dyhead i berfformio'n uchel mae angen i ni gael ein sbarduno fwy gan ddata a gwybodaeth wrth symud ymlaen. Byddwn yn adolygu ein data, fel ein bod yn deall yr hyn sydd gennym ac yn nodi ble mae bylchau. Maes allweddol ar i'w ddatblygu yn 2022/23 yn y maes hwn oedd cyflwyno system Power BI ledled y sefydliad. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu arbenigedd mewnol i ddefnyddio Power BI ac ar hyn o bryd mae nifer o gyfarwyddiaethau wrthi'n gweithredu Power BI wrth fynd ati i fonitro perfformiad.

Rydym wedi dechrau manteisio ar feincnodau awdurdodau lleol sydd wedi'u hailgyflwyno, yn ein gwaith hunanasesu. Mae offeryn newydd wedi'i ddatblygu gan Data Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i feincnodi o fewn y broses Hunanasesu. Wrth symud ymlaen, byddwn yn ceisio defnyddio mwy o'r adnodd hwn, er mwyn helpu i gymharu ein perfformiad ag Awdurdodau Lleol eraill.

Yn gyffredinol, rydym yn cydnabod bod meysydd gennym sy'n tanberfformio yn y Cyngor ac rydym yn rhoi trefniadau a phrosesau ar waith, i wella hyn. Mae nifer o flociau adeiladu cadarnhaol newydd wedi'u rhoi ar waith ond mae angen i ni wneud mwy i wella gwasanaethau er mwyn dod yn gyngor sy'n perfformio'n dda.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C3.1 - Archwilio ffyrdd o dderbyn gwell gwybodaeth gan drigolion drwy:**
  - Adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal ein Harolwg Trigolion a chasglu unrhyw adborth arall gan ein cwsmeriaid - er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr adborth iawn gan y cwsmeriaid iawn ar yr adeg iawn
- **C3.2 – Canfod bylchau yn ein data drwy:**
  - Adolygu'r holl ddata yr ydym yn ei gasglu ar draws ein sefydliad a dod o hyd i'r bylchau yn y wybodaeth sydd gennym.
- *Hefyd yn gysylltiedig â gweithio â'n Grŵp Ffocws Staff (C1.2) wedi ei gynnwys dan Nodwedd 1*

**4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…**
- Trysori arfer cynhwysol a chydraddoldeb
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweitwhyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i dderbyn cefnogaeth i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

**Casgliadau**

Rydym yn trysori a chroesawu cynwysoldeb a chydraddoldeb o fewn y sefydliad. Mae llawer o'r cynlluniau a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf fel Cynllun Llesiant Gwent a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (y cafodd y ddau eu datblygu drwy bartneriaeth a chydweithredu cadarn), yn dangos ein hymrwymiad i hyn. Trwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, rydym wedi ymrwymo i wella'r hyn y mae ein gweithlu yn ei ddeall am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel bod mwy o wybodaeth ynghylch anghenion ein holl drigolion, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn ymatebol ac yn hyblyg i'r gwahanol anghenion o fewn ein cymunedau.

Mae mwy o barodrwydd i dderbyn her ledled y sefydliad, ac mae hyn yn cael ei ystyried i raddau helaeth fel her adeiladol, yn hytrach na grym negyddol. Rydym yn hyrwyddo diwylliant drws agored o fewn y sefydliad sy'n dod yn fwy amlwg. Mae hyn yn atgyfnerthu'r her a'r cyfathrebu nid yn unig yn y Tîm Rheolwyr, ond yn

ehangach ledled y sefydliad. Mae hyn wedi ein helpu i gydnabod y cyfraniad y gall staff o bob haen ei wneud o fewn y sefydliad. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull cymunedau buddiant i alluogi staff i gyfrannu mewn amrywiaeth o ffyrdd at feysydd gwybodaeth neu ddiddordeb y tu hwnt i'w cwmpas proffesiynol arferol (fel y nodir o dan 'Cyngor Arloesol'). Mae ymrwymiad parhaus hefyd i fod yn rhan o gyfarfodydd ERCC (Employee Relations Consultative Committee), bod ein cysylltiadau diwydiannol effeithiol gyda'r undebau llafur yn parhau.

Yn ystod 2022/23 un o'n meysydd datblygu allweddol oedd cyflwyno ein Strategaeth Lles Cymunedol drwy symud tuag at Ymagwedd Gymunedol o Ymdrin â Llesiant a Gwydnwch a buddsoddi ynddynt. Mae'r brif weledigaeth a'r amcanion ategol ar gyfer yr ymagwedd gymunedol wedi'u datblygu ac mae'r gwaith i baratoi'r strategaeth yn mynd rhagddo. Felly mae rhoi ein dull gweithredu newydd ar waith yn un o'n gweithgareddau gwella pwysicaf ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae mwy y bydd angen i ni ei wneud o hyd i wella ein cyfathrebu dwy- ffordd gyda'n trigolion. Bydd ymgorffori ein Strategaeth Cyfranogiad a chymeradwyo ein Strategaeth Llesiant Cymunedol yn ein helpu i weithio'n agosach gyda'n cymunedau a'n helpu i weithio gyda'n gilydd i ddod yn gyngor mwy cydweithredol a chynhwysol.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C4.1 - Bwrw ymlaen â'r Ymagwedd Strategaeth Gymunedol drwy:**
  - Gwella'r camau i gynllunio blaenoriaethau ar lefel leol, gan sicrhau bod darparu yn y gymuned yn egwyddor allweddol wrth gynllunio gwasanaethau, cynyddu nifer y gwirfoddolwyr yn y gymuned, a chael hyd i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n addas i ddarparu gwasanaethau.
- **C4.2 - Ymgorffori'r Strategaeth Cyfranogiad newydd ar draws y Cyngor drwy:**
  - Sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth o fewn ein sefydliad yn ymgorffori gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad, a fydd yn rhoi cyfleoedd priodol i'n trigolion ddweud eu dweud ar: y ffordd yr ydym yn gweithio a'r penderfyniadau y bydd angen i ni eu gwneud a allai effeithio arnynt.

**5. Cyngor wedi'i reoli'n dda sy'n…**
- Trysori ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi lles a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol
- Llywodraethu'n dda i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud

**Casgliadau Allweddol**

Mae lles a chyfraniad ein staff yn cael ei werthfawrogi a deallir bod hyn yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgymryd â chryn lawer o waith i atgyfnerthu ein hymagwedd ymhellach o ran ein Strategaeth Gweithlu. Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn, drwy ein gweithlu, yn cyflawni nodau strategol ein Cynllun Sirol, dyletswyddau cyfreithiol allweddol ac yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd y Cyngor yn datblygu ein nodweddion cyngor rhagorol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar les a datblygiad staff. Mae hyn yn dechrau cael ei weithredu drwy ffrydiau gwaith fel gweithio gyda staff yn y flwyddyn i ddod i adolygu ein rhaglen arfarnu perfformiad bresennol, mewn ffordd sydd o fudd i'r holl staff.

Rydym wedi datblygu a chyflwyno rhaglen sefydlu newydd a Rhaglen Phrentisiaeth/Hyfforddai ac Uwchsgilio i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu dysgu a datblygu eu gyrfaoedd o fewn Cyngor Torfaen. Mae ein rhaglen sefydlu newydd yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd fel sefydliad a lle rydym am anelu i fod yn y dyfodol. Mae ein rhaglen hefyd yn nodi'r hyn yr ydym yn ei drafod fel sefydliad a beth yw ein disgwyliadau gan gyflogeion. Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi gweithredu dull sy'n cynnig prentisiaethau a swyddi dan hyfforddiant, ar gyfer swyddi ar raddau penodol yn ein sefydliad. Byddwn yn ceisio grymuso staff ymhellach drwy adolygu elfennau o gynllun dirprwyo'r Cyngor, gan roi'r gallu i fwy o staff gael yr ymreolaeth i wneud penderfyniadau ar lefel is.

Rydym yn gweithio tuag at ddatblygu porth recriwtio newydd, a fydd yn hyrwyddo Torfaen fel lle gwych i weithio, ymysg darpar ymgeiswyr sy'n rhoi cynnig am swyddi. Rydym wedi cynnal ymchwil benodol i ystyried yr opsiynau gorau i hyrwyddo ein sefydliad fel cyflogwr o ddewis. Trwy gefnogaeth ein Tîm Cyfathrebu mewnol, rydym yn datblygu deunydd hygyrch i hyrwyddo ac annog darpar ymgeiswyr.

Mae llywodraethu yn parhau i fod yn gryf o fewn ein sefydliad - Cadarnhaodd y datganiad llywodraethu blynyddol fod ein dull gweithredu yn parhau'n gadarn, ac mae adborth archwilio mewn perthynas â llywodraethu yn gadarnhaol i raddau helaeth. Mae'r dystiolaeth a gawsom, gan gynnwys adborth cadarnhaol i raddau helaeth gan y pwyllgor archwilio yn dangos bod strwythurau a phrosesau llywodraethu da ar waith, sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull newydd o asesu effaith i sicrhau ein bod yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Er nad yw ein hymagwedd newydd wedi'i ymwreiddio eto, y bwriad yw mynd yn fyw yn hydref 2023.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C5.1 - Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer Arfarniadau Perfformiad drwy:**
  - Gweithio gyda'n grŵp Ffocws Staff i sicrhau bod ystod o aelodau staff yn cynnig syniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt a'u cynnwys yn ein system arfarnu.
- **C5.2 - Adolygu ein cynllun dirprwyo presennol drwy**
  - Sicrhau bod staff yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar lefel is.
- **C5.3 - Nodi bylchau yn ein data drwy:**
  - Adolygu'r holl ddata a gesglir ar draws ein sefydliad i bennu unrhyw fylchau sydd gennym o ran gwybodaeth a monitro . (*Yn yr un modd â Nodwedd 3*)

**6. Cyngor sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu, sy'n…**

- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a thrigolion mewn materion sy'n effeithio arnynt
- Croesawu syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac onest gyda staff a thrigolion
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

**Casgliadau Allweddol**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd a manteision ymgysylltu â'n staff, ein trigolion a'n rhanddeiliaid ac rydym yn parhau i weithio gyda chymaint o grwpiau a fforymau â phosibl, i sicrhau eu bod yn ymwneud â'r materion sy'n effeithio arnynt. Mae gennym fforymau a rhwydweithiau da a sefydledig (Panel Dinasyddion, Fforwm Ieuenctid ac ati) sy'n ymwneud yn bennaf â'r penderfyniadau a'r datblygiadau rydym yn eu gwneud. Mae gennym hefyd nifer o Aelodau Eiriolwyr sydd wedi'u rhannu rhwng aelodau'r cabinet ac aelodau mainc gefn, sydd hefyd yn ymgymryd â phenderfyniadau sy'n berthnasol i'r meysydd y maent yn eu cynrychioli. Mae rhai o'n Haelodau Eiriolwyr yn cynnwys ein heiriolwr dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Eiriolwr dros Ofalwyr, Eiriolwr dros Gynaliadwyedd ac Eiriolwr dros Iechyd Meddwl.

Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn onest â thrigolion ac aelodau. Mae'r cyfathrebu hwn yn digwydd yn aml a thrwy amrywiaeth o gyfryngau, sydd wedi profi i fod yn gynhyrchiol iawn, gyda llawer iawn o ryngweithio ac adborth. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau'n dda, ac rydym yn agored ac yn onest mewn meysydd lle na cyflawnwyd ein cynlluniau fel y bwriadwyd.

Rydym wedi mabwysiadu a datblygu ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, i fynd ati'n well i gynnwys ein trigolion ac annog mwy i weithio gyda ni. Rydym bellach ar y cam gweithredu sy'n cynnwys hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth ar draws ein holl feysydd gwasanaeth, fel ein bod yn rhoi cyfleoedd i bobl gael dweud eu dweud o ran y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn gallu effeithio ar y penderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Yn gynharach eleni fe wnaethom benderfynu dod â'n hymgynghoriad cyhoeddus i ben ynghylch y cynlluniau i newid pa mor aml y cesglir gwastraff gweddilliol. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl ystyried y nifer o sylwadau a dderbyniwyd am y cynigion gan drigolion. Er bod hwn yn benderfyniad anodd ei wneud, ymdrechwn i gynnwys trigolion yn y materion sy'n effeithio arnynt ac rydym yn barod i wrando a gweithredu ar unrhyw adborth.

Rydym wedi datblygu Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau newydd ac rydym wrthi'n nodi sut y byddwn yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau, ym mhob un o'n cymunedau, i gryfhau gwytnwch ac adnabod a chyflawni eu blaenoriaethau llesiant. Drwy ein Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau newydd, rydym wedi diffinio sut y byddwn yn gweithio gyda'n trigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n bartneriaid (fel cynghorau cymuned), ym mhob un o'n cymunedau, i nodi a chyflawni eu blaenoriaethau lles ac i wella gwytnwch. Mae ein 'Ymagwedd Gymunedol' yn annog mwy o ymgysylltu â thrigolion ynghylch y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae enghreifftiau yn cynnwys ail-lansio Papur Newydd Cymunedol Llais Torfaen, sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y gall trigolion gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r cyngor, o gymryd rhan mewn arolygon i ymuno â phanel dinasyddion. Rydym hefyd wedi datblygu perthynas â Fforwm Mynediad Torfaen, sef corff annibynnol, sydd wedi bod yn cefnogi'r tîm etholiadau gyda'r adolygiad o orsafoedd pleidleisio sydd ar y gorwel. Rydym hefyd wedi ail-lansio Panel Pobl Torfaen, gydag aelodau'n cytuno i'r timau gysylltu â nhw pan fyddant am gynnwys trigolion yn gynharach yn y broses ymgynghori.

Fel y crybwyllwyd eisoes o dan 'Gyngor Arloesol', rydym yn gweithio i feithrin diwylliant sefydliadol sy'n grymuso staff i gael yr hyder a'r gallu i gyflwyno eu syniadau, rhywbeth y bydd yn bwysig i ni ddatblygu yn y blynyddoedd i ddod.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C6.1 - Ymgorffori'r Strategaeth Cyfranogiad newydd ar draws y Cyngor drwy**:
  - Sicrhau bod pob Cyfarwyddiaeth yn ein sefydliad yn ymgorffori gofynion ein Strategaeth Cyfranogiad, gan roi cyfleoedd i bobl leisio eu barn ar y ffordd rydym yn gweithio a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- *Hefyd yn gysylltiedig â'r Grŵp Ffocws Staff (C1.2) a drafodwyd o dan Nodwedd 1*

**7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol sy'n…**
- Meithrin dulliau rheoli arian cadarn
- Llwyddo i reoli adnoddau a cheisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- Hyrwyddo buddsoddi mewnol i'r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

**Ein Casgliadau**

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda yn ariannol ac mae adnoddau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol gyda phrosesau ariannol da; cyllidebau cadarn, systemau da, yn effro i heriau ariannol sy'n cael ei ystyried yn agwedd cadarnhaol gan ein rheolyddion. Mae gennym fframwaith effeithiol o atebolrwydd ariannol gellir ei dangos trwy drefniadau cadarn dros reolaeth ariannol, drwy weithdrefnau cyfrifo a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Rydym yn sicrhau, drwy ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB), ein bod yn glynu wrth y gyfraith a safonau priodol wrth gynnal busnes y Cyngor, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae ein trefniadau yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyfalaf a chyllideb refeniw sefydledig. Mae ein Cynghorwyr yn derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n cymharu gwir wariant refeniw a chyfalaf / incwm â chyllidebau blynyddol, tra bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn amlinellu'r rhagolygon ariannol ac unrhyw lefelau o ddiffyg a amcangyfrifir.

Fe wnaethom gefnogi ein prosesau ariannol drwy ddirprwyo cyfrifoldeb i unigolion yn ein sefydliad, felly'n sicrhau eu bod yn gwbl gyfrifol ac atebol am eu cyllidebau a'r prosesau ariannol (gan gynnwys glynu at brosesau ariannol corfforaethol), sy'n cael eu dilyn i ddarparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae staff yn derbyn cefnogaeth Swyddogion Cyllid Arweiniol sy'n effeithiol ac uchel eu parch y gellir dibynnu arnynt i gael cyngor ac arweiniad arbenigol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Tîm Rheolwyr wedi datblygu 'Prosiect Apollo' sef ein dull cyngor cyfan a ddatblygwyd dan 8 ffrwd waith ar wahân i fynd i'r afael â'r diffyg yn ein cynllun ariannol tymor canolig. Rhan o'r rhaglen hon yw datblygu dull ehangach y cyngor o fasnacheiddio, sydd wedi arwain at oedi yn ein hamserlenni ar gyfer y prosiect hwn. Yna, bydd ein dull ehangach o fasnacheiddio yn cael ei adolygu i bennu

angen neu fudd o strategaeth benodol – yng ngoleuni themâu eraill Prosiect Apollo mae ailgynllunio gwasanaethau a thrawsnewid digidol, sy'n ceisio lleihau costau a chynyddu effeithlonrwydd.

Rydym wedi ychwanegu mwy o wytnwch a sefydlogrwydd i'n swyddogaeth gaffael, o ganlyniad i'n cytundeb cydweithredu â Chyngor Dinas Caerdydd. Rydym yn gweithio ar ddatblygu blaengynllun contract ac ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gallu nodi unrhyw gaffaeliadau yn y dyfodol a chreu cynllun peilot ar ymgorffori gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol. Mae canllawiau a phrosesau asesu risg yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a fydd yn cynorthwyo o ran gwariant caffael i ddylanwadu ar yr agenda datgarboneiddio.

Rydym yn parhau i fod yn gryf o ran denu buddsoddiad mewnol, gan gynnwys cynigion llwyddiannus am gyllid Ffyniant Bro a chyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a arweiniodd at gyllid grant newydd a fydd yn dod â buddsoddiad i'n cymunedau. Mae angen gwneud mwy i geisio gwerth am arian ac felly bydd hwn yn un o'n meysydd i'w gwella yn y flwyddyn nesaf.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C7.1 – Gwella'r ffordd yr ydym yn blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf drwy:**
  - Gysylltu â chynlluniau gwasanaethau a mandadau prosiectau
- **C7.2 – Gwella'r ffordd yr ydym yn sicrhau Gwerth am Arian drwy:**
  - Archwilio i ddefnyddio Model Busnes 'Pum Achos' gyda'n Swyddfa Rheoli Prosiectau ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr

**8. Cyngor sy'n cael ei arwain gan ddata a phrosesau digidol, sy'n…**
- Defnyddio data i ragweld anghenion
- Adeiladu proffiliau digidol i ddeall teithiau cwsmeriaid yn well, ac
- Ymlaen o hyd – felly'n galluogi trigolion i gael hyd i ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol

**Ein Casgliadau**

Er ein bod wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ymwybodol bod gennym lawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni ein huchelgais i fod yn gyngor a arweinir yn ddigidol a chan ddata. Rydym wedi sefydlu Tîm Digidol a Data i atgyfnerthu ein hymagwedd a'n gobaith yw adeiladu ymhellach ar allu ein tîm drwy gais am gyllid i'r HDRC (Health Determinant Research Collaboration). Os bydd ein cais yn llwyddiannus, ni fydd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn yr arian hwn.

Mae ein Tîm Digidol a Data wedi arwain ar ddatblygu ein Strategaeth Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid. Mae ein strategaeth yn ein helpu ar ein taith i fod yn ddigidol a chael ein harwain gan ddata, ac mae gennym bellach weledigaeth strategol, glir. Cafodd fersiwn drafft ein Strategaeth Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol eu mabwysiadu gan y Cabinet ym mis Mai 2023, yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Rydym eisoes wedi dechrau gweithredu ein cynllun cyflawni, drwy amrywiaeth o ffrydiau gwaith a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi penodi cyflenwr allanol ar gyfer ein System Rheoli Cofnodion Electronig a Dogfennau (EDRMS). Mae'r cynnydd ar y trywydd iawn a'r targed o ran dyddiad cwblhau yw mis Rhagfyr 2024.

Rydym wedi parhau i gyflwyno Power BI gan gefnogi ein dyhead i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan fwy o ddata a gwybodaeth drwy wella hygyrchedd a natur weladwy'r data. Mae gwaith eisoes wedi profi'r cysyniad y gall data fod yn fwy gweladwy, hygyrch a defnyddiol, gyda llawer llai o fewnbwn â llaw.

Rydym wedi datblygu proffiliau digidol i ddeall ein cwsmeriaid ac o ganlyniad, rydym wedi dechrau Awtomeiddio Prosesau Robotig. Mae angen rhagor o waith i ymgorffori personâu a mapio teithiau yn ein dulliau darparu gwasanaeth. Mae nifer o brosiectau eraill sydd â'r nod o gyflawni effeithlonrwydd digidol, fel BOT Torfaen a'n Prosiect Hunanwasanaeth i Weithwyr hefyd yn symud ymlaen.

Mae angen i ni wneud mwy i ddeall pa atebion digidol sydd ar gael i ni a sut y gall ein gwasanaethau amrywiol eu defnyddio ar draws ein sefydliad. Mae angen i ni ddeall a defnyddio ein data yn well, gan

ddadansoddi pa ddata sydd gennym a pha ddata sydd ei angen arnom, fel y gallwn ddeall ein gwasanaethau ac anghenion ein cymunedau yn well. Dyma fydd ein meysydd o flaenoriaeth yn y flwyddyn nesaf.

**Gweithgareddau Gwella ar gyfer 2023/24**

- **C8.1 Archwilio ffyrdd o fynd â staff a thrigolion gyda ni ar ein taith ddigidol drwy:**
  - Ddeall ac asesu pa dechnoleg sydd eisoes gennym a'r hyn sydd ei angen
  - Gweithio gyda'n Grŵp Ffocws Staff i sicrhau bod y diwylliant cywir ar waith i wella'n ddigidol a sicrhau bod ein staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r ymgysylltiad iawn.
- **C8.2 Canfod bylchau yn ein data, drwy:**
  - Adolygu'r holl ddata a gesglir ar draws ein sefydliad a phenderfynu lle mae bylchau yn ein gwybodaeth. (Yn unol â C3.2)

## 5. Cydgysylltu ein gofynion deddfwriaethol

Mae darpariaethau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (2021) hefyd yn cyd-fynd â dyletswyddau eraill a osodir ar gynghorau, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru (2016).

Felly, bydd adran nesaf yr adroddiad hwn yn manylu ar y ffordd yr ydym wedi bod yn gweithio tuag y gofynion deddfwriaethol eraill.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd benodol ar gynghorau, i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb sy'n nodi ein cynnydd o ran cyflawni ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol.




Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020 i 2024 i arwain ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a dangos ein hymrwymiad parhaus i gyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion cynhwysiant, tegwch, tegwch o ran deilliannau a chyfiawnder cymdeithasol ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod hyn yn cael ei ddangos yn ein harferion cyflogaeth, agweddau ac ymddygiad ein staff ac yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Mae sicrhau bod ein gwasanaethau'n helpu ac yn cefnogi pobl agored bregus, a'r rhai yn ein cymunedau sydd wedi wynebu anfantais yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r Cyngor hwn. Er gwaethaf heriau ariannol ymysg heriau eraill, rydym yn parhau i weithio nid yn unig tuag at gynnal ein gwasanaethau ond hefyd eu gwella, fel eu bod yn gweithio, i ddiogelu hawliau pobl a grwpiau, dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ein hadroddiad blynyddol, rydym wedi dangos ein cyfraniad cadarnhaol tuag at greu cymdeithas decach drwy'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, gan roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu, canolbwyntio ar amcanion cydraddoldeb strategol penodol ac archwilio'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn rhan o bob amcan.

Gellir nodi o'n hadroddiad blynyddol fod cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'i gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cydymffurfio ac yn foddhaol, mewn perthynas â nifer o'r amcanion cydraddoldeb a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, felly gwelwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol.

Roedd ein gweithgarwch yn ystod 2022/23 yn cynnwys y canlynol: -

- Dyluniwyd modiwl Hyfforddiant Recriwtio, y bydd gofyn i bob rheolwr ei gwblhau cyn iddo gynnal cyfweliadau. Mae'n cynnwys prosesau ac arfer gorau.
- Cytunwyd ar Strategaeth Gweithlu sy'n cynnwys Fframwaith Llesiant sydd â phwyslais ar Iechyd Meddwl. Byddwn yn paratoi bwletin misol sy'n edrych ar bob agwedd ar lesiant a sefydlwyd tudalen we bwrpasol

i ddarparu adnoddau i staff.
- Mae cynllun gweithredu llesiant yn cael ei ddatblygu a fydd yn cefnogi lles meddyliol yn y gweithle.
- Rydym wedi lleihau nifer y bobl ifanc NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar gyfer y flwyddyn a nifer y bobl ifanc anhysbys sy'n gadael blwyddyn 11.
- Yn ystod 2022/23, fe wnaethom ddarparu gwerth dros £800,000 o gymorth costau byw i drigolion oedd 'mewn perygl'. Cafodd y gefnogaeth ei thargedu i grwpiau oedd o flaenoriaeth yn cynnwys y rheini sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a thrigolion hŷn sy'n derbyn prydau cymunedol.
- Cynhaliodd ein Tîm Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gynhadledd Flynyddol Cymunedau Sy'n Deall Dementia yng Ngwent ym mis Medi 2022. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf a gafodd ei gynnal ers y pandemig. Rhoddodd hyn gyfle i weithwyr proffesiynol, arbenigwyr yn ôl profiad a chymunedau i ddod at ei gilydd i rannu dysgu, syniadau a chydweithio i wella ymwybyddiaeth, cynhwysiant a chefnogaeth. Denodd y digwyddiad 135 o bobl ac fe wnaeth 34 arall ymuno â'n cynhadledd gweminar gyda'r nos.
- Cwblhawyd Cam 1 prosiect Cynghrair Ieuenctid Torfaen (TYA) yn llwyddiannus, a bydd Cam 2 yn cael ei gyflwyno o fis Mawrth 2023 ymlaen.
- Fe wnaethom barhau i weithio'n gynhyrchiol gyda Sefydliad Pobl Anabl- Fforwm Mynediad Torfaen - i archwilio materion yn yr amgylchedd adeiledig a dileu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag cael mynediad.
- Yn 2022/23, fe wnaeth ein Tîm Cynhwysiant Ariannol godi/arbed gwerth £86,633.76 i'w cleientiaid drwy fudd-daliadau, ceisiadau grant, lleihau treuliau ac ati. Fe wnaeth y Tîm atal 19 achos o ddigartrefedd o ganlyniad i'w ymyriadau.

## Yr Iaith Gymraeg



Fel rhan o'n rhwymedigaethau dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n rhaid i ni gyhoeddi strategaeth pum mlynedd sy'n dangos sut y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cymeradwywyd Strategaeth y Gymraeg, gan y Cyngor ar 20 Mehefin 2016, gan amlinellu'r cyfeiriad strategol yn ystod 2017 – 2022 fydd yn cynorthwyo twf y Gymraeg yn y fwrdeistref a chefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Adroddir yn flynyddol ar ein cynnydd yn erbyn y strategaeth hon yn ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod 2022/23 rydym wedi:

- **Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd –** daeth strategaeth 5 mlynedd y Cyngor i ben ym mis Mawrth 2022. Mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 1.6% i 8.24% (7,366 o drigolion). Oherwydd yr oedi cyn rhyddhau data manwl ar gyfer pob ward yng Nghyfrifiad 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, rydym wedi cael ein gohirio rhag ymgynghori ar y Strategaeth ar gyfer 2023-2027. Felly, bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddilynol yn cael ei chynnal yn ystod 2023.
- **Creu Mwy o Siaradwyr Cymraeg** – Agorwyd canolfan arbenigol tuag at ddiwedd 2022/23 i blant sydd am drosglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg i i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae uned Carreg Lam wedi ei lleoli yn Ysgol Panteg yn Nhref Gruffydd ac mae'n cynnig 12 o leoedd i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 6 ddilyn rhaglen iaith ddwys dros gyfnod o 12 wythnos, i wella'u Cymraeg a chynorthwyo'r pontio.
- **Dileu Rhwystrau Yn Ystod 2022/23** – Aeth gwaith rhagddo i barhau i gynyddu capasiti a chael gwared ar rwystrau a allai gyfyngu ar allu adrannau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg drwy gydol 2022/23. Mae'r cynnydd wedi'i rwystro'n rhannol oherwydd prinder cyfieithwyr Cymraeg yn genedlaethol. Nod y Cyngor yw gweithio gyda Cholegau a Phrifysgolion yn y rhanbarth ehangach a'n hysgol gyfun Gymraeg yn Nhorfaen, i ganfod cyfleoedd hyfforddi i ddarpar gyfieithwyr.
- **Defnyddio'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd** - Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfarfodydd trwy Microsoft Teams, ac aethpwyd ati i archwilio'r heriau o ddarparu cyfieithu ar y pryd, drwy system Microsoft. Ers rhyddhau diweddariad i alluogi ffrydio sain ddeuol, mae'r cyfleoedd i swyddogion gynnig cyfieithu ar y pryd wedi cynyddu'n sylweddol. Ers llwyddo'n ddiweddar i recriwtio cyfieithydd cymwys sy'n cynnig cyfieithu ar y pryd, mae'n golygu ein bod wedi gallu cynnig gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid, aelod etholedig a chydweithwyr.
- **Digwyddiadau Diwylliannol** - I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, cyfrannodd y Cyngor at ŵyl 'Torf-hwyl'. Gyda pherfformiadau byw, stondinau, gemau drwy gydol y dydd, roedd gweithgareddau i wahanol grwpiau oedran, a gwybodaeth am ddysgu Cymraeg. Roedd y digwyddiad hyd yn oed yn cynnig gwersi sgrialu drwy gyfrwng y Gymraeg! Gellir gweld tudalen Facebook 'Torf-hwyl' **yma.**

- **Datblygu Polisïau** - Mae Uned y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r Asesiad Lles Integredig ar benderfyniadau polisi. Mae'r holl weithgareddau'n ymwneud â newid, fydd yn effeithio ar bolisi'r cyngor neu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i drigolion / grwpiau / busnesau lleol yn galw am Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys asesiad iaith Gymraeg. Cyn cyflwyno unrhyw adroddiad i'r Aelodau, craffir ar yr adroddiad i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu hystyried yn unol â Safonau'r Gymraeg.

## Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn thema drawsbynciol i lywodraeth leol gyda chysylltiadau cryf â'r holl faterion datblygu cynaliadwy eraill. Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n gosod dyletswydd ar adrannau pob awdurdod lleol i roi sylw i fioamrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth yn Nhorfaen.



Mae cynefinoedd naturiol o ansawdd uchel yn nodweddiadol iawn o Dorfaen ac mae'n gartref i nifer o ardaloedd sydd o bwysigrwydd cadwraeth leol a chenedlaethol. Mae pedwar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, tua 200 o Safleoedd o Bwysigrwydd o ran Cadwraeth Natur a saith Gwarchodfa Natur Leol. Mae Afon Lwyd yn goridor ecolegol pwysig yn Nhorfaen ochr yn ochr â chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Ymhlith y cynefinoedd allweddol mae coetir collddail hynafol, gwlypdiroedd, glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau ac ucheldiroedd sy'n doreth o rug. Mae coetiroedd yn gyffredinol yn gorchuddio tua 5% o gyfanswm yr arwynebedd yn Nhorfaen, ac yng Nghwmbrân mae llawer o enghreifftiau o goetiroedd hynafol sydd dros 400 mlwydd oed.

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Torfaen yn nodi sut y byddwn yn cadw ac yn gwella bioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol y fwrdeistref. Mae'r cynllun, a hwylusir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen, yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar wahân i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol penodol.

Yn ystod 2022/23 rydym ni wedi:

- Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth
- Rheoli 7 Gwarchodfa Natur Leol er lles natur a phobl. Mae'r rhain wedi eu lleoli'n strategol ledled Torfaen ac maent yn hybiau bioamrywiaeth o fewn ein seilwaith gwyrdd
- Gweithio gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru i fynd i'r afael â gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd a thanau gwyllt ar yr ucheldiroedd
- Cefnogi gwirfoddolwyr i reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy a gwarchodfeydd natur lleol yn Nhorfaen
- Sicrhau cytundeb i gynyddu faint o dir y Cyngor sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth ac addasu i'r hinsawdd
- Gweithio gyda Thai Cymunedol Bron Afon i nodi cyfundrefnau rheoli glaswelltir amgen a mwy cynaliadwy
- Trwy bartneriaeth Natur Leol Blaenau Gwent a Thorfaen, dechrau gweithio ar Gynllun Gweithredu i Adfer Natur
- Mapio ein Hasedau Seilwaith Gwyrdd Trefol a choridorau dynodedig sydd angen eu diogelu a'u gwella i sicrhau cysylltedd ecolegol trwy'r ardal dref
- Cwblhau hyfforddiant staff a seminarau'r Aelodau ar faterion fel Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) Strategaeth Coed Torfaen a dyletswydd S6 i gyrff cyhoeddus
- Trwy brosiectau Gwent Gydnerth a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth i gyflawni prosiectau g bioamrywiaeth yn y gymuned a phrosiectau lles
- Adnewyddwyd y cynlluniau rheoli ar gyfer pob un o'r 7 Gwarchodfa Natur Leol ynghyd ag un ychwanegol ar gyfer GNL arfaethedig ym Mlaenserchan
- Cwblhawyd cynllun rheoli ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Blorens.
- Gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid gan greu 3 phwll newydd, a Gwarchodfa Natur Leol Llynnoedd y Garn
- Cyflwyno adroddiad cydymffurfio tair blynedd ar ddyletswydd bioamrywiaeth cyrff cyhoeddus S6 i Lywodraeth Cymru (LlC)

- Cefnogi'r cam o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd a Natur Torfaen
- Plannu dros 2000 o goed ledled y fwrdeistref

## 6. Cost ein Gwasanaethau (ein cyllideb ar gyfer 2022/23)

### Ein Cyllideb Refeniw

Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2022-23 wedi'i gynnwys ar ffurf dogfen drafft o'n **Datganiad o Gyfrifon | cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Cymeradwywyd cyllideb 2022/23 ym mis Mawrth 2022 gyda chyllideb refeniw gros o £299.9 miliwn a ariannwyd o'r £90.3 miliwn o grantiau, ffioedd a thaliadau gwasanaeth penodol i'r llywodraeth am wasanaethau a chyllid a chyfraniadau eraill. Ariannwyd y gyllideb net o £209.6 miliwn gan £160.1 miliwn o gyllid heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru a £49.5 miliwn drwy Dreth y Cyngor. Fe wnaeth alldro refeniw 2022/23 ein rhoi mewn sefyllfa net sy'n ffafriol, ar ôl cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn penodol o £975,000 yn erbyn ei gyllideb o £209 miliwn.




Wrth ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd, fe wnaeth y Cyngor (yn cynnwys ei ysgolion) wario cyfanswm gros o £322 miliwn yn cynnwys costau cyflogeion gwerth £151 miliwn, costau cynnal gwerth £160 miliwn a chostau cyfalaf o ryw £11 miliwn. Mae'r prif resymau dros y sefyllfa alldro wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Derbyn grantiau ychwanegol a newydd gan wahanol sefydliadau, yn cynnwys Llywodraeth Cymru
- Gwariant craidd yn cael ei ddadleoli gan gyllid grant
- Lefel sylweddol o swyddi gwag a throsiant ymhlith y staff ar draws yr holl wasanaethau
- Cynnydd mewn incwm buddsoddi ychwanegol yn sgil cyfraddau llog cynyddol
- Costau cyfyngedig yn gysylltiedig â Rheoli Newid mewn ysgolion
- Gwario llai yn gyffredinol ar gyllidebau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig â gweithwyr

### Ein Cyllideb Gyfalaf

Yn ogystal â'r gwariant refeniw gwariodd y Cyngor £20 miliwn ar ei asedau drwy ei raglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 a oedd yn cynnwys gwario ar ein tir a'n hadeiladau, gan gynnwys:

- parhau i weithredu'r Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy (ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), drwy ymestyn Ysgol Gyfun Gwynllyw, cynllunio / datblygu estyniad ysgol Crownbridge, a chynllunio / datblygu'r cam o adeiladu ysgol gynradd newydd Maendy.
- parhau i ddatblygu 'r cyfleuster parcio a theithio yng ngorsaf drenau Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.
- parhau i ddatblygu safle'r British.
- parhau i fuddsoddi yn y seilwaith priffyrdd.
- adnewyddu'r Ganolfan Ddinesig, a
- parhau i fuddsoddi mewn grantiau cyfleusterau i'r anabl i gefnogi ein dinasyddion bregus.

Profodd rhaglen gyfalaf 2022/23 £9.7 miliwn o lithriad i yn 2023/24, yn rhan o hyn mae llithriad yr Economi a'r Amgylchedd sef £3.2 miliwn yn ymwneud â £656,000 o'r cyllidebau cynnal a chadw asedau; £370,000 yn ymwneud â'r rhaglen briffyrdd; £290,000 ar grynhoi a chywasgu; £246,000 ar grantiau seilwaith cerbydau trydan; £169,000 ar grantiau adfer yn dilyn llifogydd a £1.4 miliwn ar Orsaf Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd. Roedd y llithriad ar Addysg yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Maendy; tra bod y llithriad Gofal Cymdeithasol a Thai ar grantiau cyfleusterau i'r anabl. Roedd y llithriad pennaf o ran Oedolion a Chymunedau yn ymwneud â £1.1 miliwn ar Raglen Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb a £413,000 ar Ffyniant Bro.

## 7. Ymgynghori ynghylch ein Perfformiad

Mewn ymateb i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gwnaethom fabwysiadu ei Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus gyntaf, yn ystod mis Hydref 2022.

Roedd y strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mai 2022 ac Awst 2022 a chynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb gyda gwahanol baneli dinasyddion, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Torfaen a Fforwm Mynediad Torfaen. Defnyddiwyd eu hadborth i adolygu'r strategaeth. Datblygwyd Fframwaith Cyfranogiad ar gyfer staff a'i hyrwyddo ymhlith staff a datblygwyd maes lle gall y staff gymryd rhan ar ein Mewnrwyd, Swoop. Un o brif egwyddorion ein strategaeth newydd yw ymrwymiad i ddweud wrth bobl sydd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, sut aethpwyd ati ddefnyddio eu sylwadau a'u hadborth.

Mae ein hwb ymgysylltu cymunedol ar lein, ‘Dweud Eich Dweud Torfaen’ yn cynnig un ffordd i dimau gyfathrebu gyda’u hymatebwyr. Mae ein platfform yn caniatáu i bobl gofrestru fel cyfranogwyr a derbyn cylchlythyrau rheolaidd sy'n eu hysbysu ynghylch y diweddaraf am ymgynghoriadau sy’n mynd rhagddynt a rhai sydd ar y gorwel, a pha gamau a pha gamau sy'n cael eu cymryd yn dilyn ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben. Yn ystod 22/23 trwy'r platfform Dweud Eich Dweud cawsom 17,132 o ymweliadau â’r safle; 5926 yn cyfrannu at y platfform; 443 yn cofrestru, ac anfonwyd 11 o gylchlythyrau Dweud Eich dweud gyda 54.7% ar gyfartaledd yn eu hagor.

Yn ystod 2022/23, rydym wedi cynnwys y cyhoedd yn: Torfaen y Dyfodol – Cynllun Sirol i bawb 2022-2027; Y Gyllideb; Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus; Strategaeth Digidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid; Strategaeth y Gamlas; Cynlluniau Adfywio Canol Trefi; Cynllun Llesiant Gwent; Arolwg Sir i Drigolion 2022; a newidiadau i amserlenni Casglu Gwastraff.

Yn ystod yr ymgynghoriadau hyn, rydym wedi defnyddio amrywiaeth o offer ac wedi cynnal cyfuniad o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn ogystal â chynnal arolygon ar lein. Ymwelwyd â Phaneli Dinasyddion, Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol a chynhaliwyd sesiynau galw heibio ym Mlaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Defnyddiwyd posteri, taflenni ac asedau gweledol yn ystod pob gweithgaredd ymgysylltu. Cafodd panel Pobl Torfaen ei ailgyflwyno hefyd, a'r Cynllun Sirol oedd yr ymgynghoriad cyntaf a gyflwynwyd iddynt.

Yn ystod 2022/23, fe wnaeth dros 1,000 o bobl gymryd rhan yn ein harolwg blynyddol i drigolion, gyda mwy yn dweud eu bod yn fodlon ag ansawdd gwasanaethau’r cyngor a pha mor dda yw’r cyngor o ran cyfleu gwybodaeth i bobl o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

- Roedd 59% yn fodlon neu'n fodlon iawn ag ansawdd gwasanaethau'r cyngor
- Dywedodd 65% bod y cyngor yn dda neu’n lled dda o ran hysbysu’r trigolion

Ym mis Gorffennaf 2022, penodwyd swyddog ymgysylltu a chyfranogiad etholiadol newydd i’n Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gefnogi’r dull strategol o ymgysylltu ac i gynghori a chefnogi timau ynghylch yr arfer ymgysylltu gorau, yn cynnwys datblygu cysylltiadau cryfach gyda Phanel Pobl Torfaen, paneli dinasyddion ac ymgynghoriadau cymunedol.

Arweiniodd ein gweithgareddau ymgysylltu i wella cyfranogiad mewn etholiadau a chefnogi pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio yn ystod 2022/23, at:

- Gyrraedd 50,000 ar Facebook, Instagram a Twitter
- Tua 2,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan wyneb yn wyneb mewn gwasanaethau boreol mewn ysgolion, ffug etholiadau a chwe sioe deithiol.
- Cynnydd o 9% yn y nifer o bobl ifanc 14-18 oed a gofrestrodd yn Nhorfaen (o 34% i 43%)
- Cynnydd o 2% yn y nifer a gofrestrodd i bleidleisio yn Nhorfaen (o 90% i 92%)

Mae ein platfform Dweud Eich Dweud yn cynnig offer ymgysylltu defnyddiol eraill, nid arolygon yn unig. Rydym hefyd wedi cefnogi ein timau eraill o fewn y cyngor i gasglu syniadau a sylwadau gan aelodau’r cyhoedd. Mae gennym fannau preifat i grwpiau lle gall aelodau deimlo’n ddiogel i fynegi eu barn. Maent yn cael eu defnyddio gan y rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd a Phanel Pobl Torfaen ac ar hyn o bryd mae gennym fwrdd syniadau i aelodau sydd am rannu eu hawgrymiadau ar ailgylchu a chyfle i awgrymu materion i’w craffu – mae hon yn ffordd ddiddorol a difyr i rannu syniadau, gan ei bod yn ffordd llai ffurfiol o rannu gwybodaeth.

Mae'r wefan gorfforaethol yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth bwysig i drigolion, ac rydym wedi datblygu ardal sy'n ymroddedig i gyngor ar gostau byw. Mae nifer y tanysgrifwyr i'n datganiadau i'r wasg a'n e-fwletinau wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn parhau i annog pobl i gael

mynediad at ein hadnoddau digidol, yn cynnwys Fy Nhorfaen, ap gwasanaethau’r Cyngor ar lein, sy’n caniatáu i drigolion wneud cais am wasanaethau, adrodd amdanynt neu dalu, a hynny 24/7.

Ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yw ein ffordd bennaf o ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion. Rydym wedi:

- Denu 40,000 o ddilynwyr ar ein 3 safle cyfryngau cymdeithasol pennaf – Facebook, 21.6k, Twitter 16.2k, Instagram 2.6k (70% yn fenywod/ 30% yn ddynion)
- Derbyn 25,000 o sylwadau a negeseuon (teimladau - 46% yn gadarnhaol neu lled-gadarnhaol, 34% yn niwtral, 20% yn negyddol neu’n lled-negyddol) a chyrhaeddom tua 5miliwn o bobl - 60,000 yn clicio ar ddolenni cyswllt mewn negeseuon.
- Gweld ein platfform cyhoeddus “Dweud eich Dweud” yn tyfu i 443 o gyfranogwyr cofrestredig ar y safle, sy’n golygu ein bod yn gweld eu manylion demograffig yn eu hymatebion. Maent hefyd yn derbyn negeseuon e-bost uniongyrchol, i'w hysbysu am ymgynghoriadau newydd a rhoi adborth ar ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben.
- Denu 25,000 o danysgrifwyr i’n Gwasanaeth newyddion e-fwletin .Gov Delivery a 74,000 o danysgrifiadau i fwletinau. Tua 40% yw cyfradd agor bwletinau, 70% yw’r gyfradd ymgysylltu a gwelwyd twf o 7.8% yn nifer y tanysgrifwyr yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Ychwanegu cyfleuster i ganfod adborth cwsmeriaid yn ddiweddar ar wefan ein Cyngor, i ganfod boddhad o ran ymweliadau.
- Datblygu ac ychwanegu man dynodedig ar ein gwefan i roi gwybodaeth am gostau byw.
- Gweld cynnydd yn nifer y bobl sy’n tanysgrifio i dderbyn datganiadau i’r wasg a e-fwletinau yn ystod 2022/23 ac rydym yn parhau i annog pobl i ddefnyddio ein hadnoddau digidol yn cynnwys Fy Nhorfaen ap gwasanaethau’r Cyngor ar lein sy’n caniatáu i drigolion ofyn am wasanaethau, adrodd amdanynt neu dalu amdanynt a hynny 24/7.
- Creu cyfrif TikTok yn ddiweddar i gyfathrebu’n uniongyrchol â thrigolion iau. Rydym yn bwriadu datblygu'r sianel hon ymhellach yn y dyfodol
- Ymgymryd ag Orlo, Llwyfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Digidol, i wella ein hamserlenni a’n gallu i wrando’n gymdeithasol.

## 8. Cyflawni a Monitro Cynnydd

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi bod drwy broses o newid ac adolygu yn 2022/23, gan fynd ati i adolygu'r dull o ymdrin ag agweddau allweddol ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Risg, a hynny’n sylweddol, gyda’r nod o gefnogi cyflwyno Cynllun Sirol newydd y Cyngor. Gellir gweld mwy o wybodaeth yn ein **Fframwaith Rheoli Perfformiad**

Cynhaliwyd yr adolygiad hefyd mewn ymateb i i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a’r Arweinwyr newydd o fewn y Cyngor, sydd wedi tynnu mwy o sylw at strwythurau, prosesau a diwylliant perfformiad y Cyngor. Mae'r Ddeddf yn ystyried hunanasesu effeithiol yn hanfodol i alluogi Cynghorau i ddeall sut maent yn perfformio a lle y gallent wneud yn well. Felly, mae ein trefniadau adrodd perfformiad yn hanfodol i ymateb y Cyngor i'r Ddeddf.

Wrth adolygu a datblygu ein trefniadau rheoli perfformiad, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad pellach yn ystod Ebrill 2022 a Chwefror 2023, gan geisio darganfod a yw fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn ac yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus a chynaliadwy.

Er na wnaeth Archwilio Cymru unrhyw argymhellion penodol, eu canfyddiadau cyffredinol oedd: “*Mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau newydd a phriodol i fonitro ac adrodd ar ei berfformiad, er y bydd trefniadau rheoli ansawdd cadarn a defnyddio data perthnasol wrth fesur, yn hanfodol i’w heffeithiolrwydd. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:*

- *mae'r Tîm Rheolwyr wedi darparu cyfeiriad a her wrth ddatblygu fframwaith priodol a ddylai wella gallu'r Cyngor i fonitro ac adrodd ar berfformiad, yn fewnol ac i'r cyhoedd.*
- *bydd trefniadau rheoli ansawdd cadarn ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn hanfodol i effeithiolrwydd cyffredinol y Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd;*

- *mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yn dibynnu ar ddefnyddio data mesur perthnasol yn dda os yw am gefnogi'r Cyngor i werthuso perfformiad ei wasanaethau yn effeithiol ac effaith ei weithgarwch gwella; a*
- *mae'r Cyngor yn cyflwyno trefniadau i wella atebolrwydd a herio drwy adrodd mewnol yn fwy aml ac ehangach ar wybodaeth perfformiad".*

Gellir gweld copi llawn o adroddiad Archwilio Cymru **yma.**

Yn cyd-fynd ag ethos Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ymwneud cymaint â gweithredu newidiadau i brosesau, ag y mae'n ymwneud â meithrin diwylliant newydd o hunanasesu a gwella parhaus yn y Cyngor, roi llawer mwy o bwyslais ar gynllunio gwasanaethau a phwysigrwydd monitro perfformiad arferol.

Mae ein cynlluniau gwasanaeth newydd yn cael eu datblygu i sicrhau cysylltiad clir rhwng cynlluniau'r gyfarwyddiaeth, y Cynllun Sirol a strategaethau corfforaethol allweddol. Felly, bydd monitro cynlluniau gwasanaeth yn rheolaidd yn galluogi'r Cyngor i fonitro camau allweddol sy'n gysylltiedig â Chynllun Sirol a chynlluniau cyflawni strategol y Cyngor.

Felly, bydd angen meithrin ein dull newydd yn ofalus, ei gefnogi a'i herio, wrth iddo ddatblygu drwy gydol y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y disgwyl, ar draws y Cyngor..

Ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 a chyfyngiadau parhaus COVID yn 2021/22 nid yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru wedi ymgymryd ag unrhyw feincnod ffurfiol wrth adrodd am berfformiad ar draws awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a ddefnyddiwyd i feincnodi perfformiad awdurdodau lleol hefyd wedi cael eu dileu.

Yn ystod 2023/24, byddwn felly yn archwilio ac yn defnyddio'r data sydd ar gael ar hwb Data Cymru ymhellach, i feincnodi ein perfformiad ochr yn ochr â chwblhau ein set ein hunain o fesurau perfformiad y byddwn yn eu defnyddio drwy 4 blynedd olaf ein Cynllun Sirol, i fonitro effaith ein cynlluniau cyflawni blynyddol.

Wrth symud ymlaen, bydd Tîm Rheolwyr y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad drwy amserlen berfformio ddeuddeg wythnos y cytunwyd arni, i roi ffocws ar berfformiad y gyfarwyddiaeth, risgiau, y Cynllun Sirol a meysydd eraill o berfformiad. Bydd Fforwm Datblygu Polisi'r Cyngor (Cabinet a Rheolwyr) hefyd yn parhau i dderbyn diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni'r Cynllun Sirol, gydag adroddiadau ehangach y Cyngor bob 6 mis.

Bydd y gwaith o wella, adrodd a monitro perfformiad yn parhau drwy gydol 2023/24, a fydd yn cynnig cyfle i atgyfnerthu ac alinio ein cynlluniau a'n prosesau ymhellach, gan fabwysiadu dull mwy integredig wrth ystyried yr heriau, y dyheadau a'r adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn y flwyddyn nesaf, felly'n ein harwain at gynllunio ein gwasanaethau yn fwy effeithiol.

Yn olaf, rydym eisoes wedi dechrau edrych ymlaen at 2024/25, drwy ystyried yr heriau a'r meysydd y byddwn yn eu blaenoriaethu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn rhan o'n hymgyrch barhaus i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng ein prosesau cynllunio Corfforaethol, Gwasanaethau ac Ariannol ymhellach er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i drigolion Torfaen.

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Paratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Hydref 2023**

I gael fwy o wybodaeth neu i gynnig sylwadau am y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Rhif ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk

